



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL RHEOLEIDDIO LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (CYMRU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r  
Nodiadau Esboniadol

**Hydref 2017**

# Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru), a gyflwynir gennyl i ar 16 Hydref 2017, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### ***Carl Sargeant AC***

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

16 Hydref 2017

# Cynnwys

## Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghoriad
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH

7. Yr opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesiadau Effaith Penodol
10. Asesu cystadleuaeth
11. Adolygu ar ôl gweithredu

**ATODIAD 1 - Rhagor o wybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

**ATODIAD 2 – Nodiadau Esboniadol**

**ATODIAD 3 – Mynegai Rheolau Sefydlog**

**ATODIAD 4 – Atodlen o Ddiwygiadau**

Atodiad 4a – Deddf Tai 1996

Atodiad 4b – Deddf Tai 1985

Atodiad 4c – Deddf Tai 1988

Atodiad 4d – Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993

## **1. Disgrifiad**

- 1.1. Bydd Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn diwygio neu'n dileu'r pwerau hynny a bennir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fel rhai sy'n dangos rheolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r ONS i ystyried ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sefydliadau'r sector preifat at ddiben cyfrifon gwladol ac ystadegau economaidd eraill yr ONS.

## **2. Cymhwysedd Deddfwriaethol**

- 2.1. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi eu nodi yn adrannol 108 ac Atodlen 7.
- 2.2. Mae paragraffau 11 a 12 o Atodlen 7 yn nodi'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt.

Paragraff 11 – Tai

**“Tai. Ariannu tai ac eithrio cynlluniau sy'n cael cefnogaeth o gronfeydd canolog neu leol sy'n darparu cymorth ar gyfer dibenion diogelwch cymdeithasol i unigolion ar ffurf budd-daliadau neu mewn perthynas â hwy. Hybu'r defnydd o effeithlonrwydd ynni a chadwraeth yn y cartref; Rheoleiddio rhent; Digartrefedd; a Charafannau preswyl a chartrefi symudol.”**

Paragraff 12 – Llywodraeth leol

**“...Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion...”**

- 2.3. Mae'r pynciau uchod yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud y darpariaethau sydd yn y Bil.

### **3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

- 3.1. Diben y ddeddfwriaeth yw rhoi diwygiadau rheoleiddiol ar waith sy'n cael gwared â rheolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog. Byddai hyn yn caniatáu i'r ONS adolygu dosbarthiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, sydd ar hyn o bryd yn cael eu pennu'n sefydliadau'r sector cyhoeddus at ddibenion cyfrifyddu.
- 3.2. Yr effaith y bwriedir i'r Bil ei chael yw galluogi'r ONS i ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sefydliadau'r sector preifat at ddibenion cyfrifyddu. Y dull arfaethedig o ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio yw'r lleiafswm gofynnol i gyflawni'r diben hwnnw. Bydd cael eu hailddosbarthu i'r sector preifat yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fanteisio ar fenthyciadau'r sector preifat i'w galluogi i adeiladu tai cymdeithasol newydd, a pharhau i gyfrannu'n helath at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu 20,000 o dai fforddiadwy newydd.

#### **Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**

- 3.3. Cymdeithasau tai yng Nghymru sydd wedi cofrestru gyda Gweinidogion Cymru o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gellir gweld rhestr gyfredol o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Cymru drwy ddilyn y ddolen ganlynol:  
<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/publications/registered-social-landlords-in-wales/?skip=1&lang=cy>
- 3.4. Yng Nghymru, nid yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwneud elw. Eu prif ddiben yw rheoli a gwella cartrefi, darparu gwasanaethau i denantiaid a phreswylwyr, a datblygu cartrefi newydd.
- 3.5. Ym mis Awst 2017, roedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn darparu tua 141,000 o dai rhent cymdeithasol fforddiadwy. Caiff cyfran sylwedol o raglen ddatblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ei hariannu gan fenthyciadau o'r sector preifat i ategu Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a rhaglenni ariannu eraill.
- 3.6. Chwaraeodd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ran hanfodol wrth gyrraedd targed blaenorol Llywodraeth Cymru i gael 10,000 o dai fforddiadwy newydd. Bydd cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i gael 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn ystod tymor y llywodraeth hon yn dibynnu'n fawr ar gyfraniad sylwedol gan sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd angen y rhyddid i godi arian o'r sector preifat i ategu'r Grant Tai Cymdeithasol.
- 3.7. Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd yr ONS ganlyniad ei hadolygiad o ddosbarthiad ystadegol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru, a'r sefydliadau cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y

canlyniad oedd eu bod, i gyd, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru, yn gyhoeddus, ac felly'n cynhyrchu ar gyfer y farchnad ac y byddent yn cael eu hailddosbarthu o dan is-sector Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol at ddibenion cyfrifon gwladol ac ystadegau economaidd eraill yr ONS. Roedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn arfer cael eu dosbarthu o dan is-sector Corfforaethau Preifat Anariannol.

- 3.8. Bydd dosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn Gorfforaethau Cyhoeddus Anariannol yn arwain at gynnydd yn Lefel Fenthyc Net y Sector Cyhoeddus gan y bydd benthyciadau marchnad y sector preifat a gymerir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd wedi'u hailddosbarthu yn y sector cyhoeddus (£200 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd ar hyn o bryd) yn cael eu nodi fel tâl yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru.
- 3.9. Pe byddai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn parhau i gael eu dosbarthu'n Gorfforaethau Cyhoeddus Anariannol, byddai cyllid ar gyfer tai yn cystadlu yn erbyn blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Mae'n debygol y byddai hyn yn arwain at lai o dai fforddiadwy newydd a llai o opsiynau i Lywodraeth Cymru fanteisio i'r eithaf ar y cyfraniad cadarnhaol y mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ei wneud i'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt, gan gynnwys sicrhau cyflogaeth a manteision economaidd yn lleol. Byddai hefyd yn arwain at ansicrwydd i randdeiliaid, gan gynnwys arianwyr sydd wedi gwneud ymrwymiadau hirdymor i ariannu sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig annibynnol.

### **Diwygio Rheoleiddiol**

- 3.10. Roedd adolygiad yr ONS o ddosbarthiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn canolbwytio ar asesu'r rheolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog sy'n berthnasol i'r Landlordiaid hyn, fel yr amlinellwyd yn y lle cyntaf yn Neddaf Tai 1996, gan gynnwys y darpariaethau a fewnosodwyd gan Fesur Tai (Cymru) 2011. Roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried rheolaethau awdurdodau lleol a allai godi o ganlyniad i drefniant rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn bennaf.
- 3.11. Bydd y Bil hwn yn dileu neu'n diwygio'r rheolaethau rheoleiddio perthnasol (y dangosyddion o reolaeth llywodraethol) ac yn cyflwyno newidiadau i'r dylanwad y caiff awdurdodau lleol dros Fyrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ar ôl gwneud hyn, bydd yr ONS yn gallu ystyried ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru i'r is-sector Corfforaethau Anariannol Preifat.

- 3.12. Nid yw'r ffaith bod y rheolaethau'n cael eu dileu yn golygu na fydd y sector yn cael ei reoleiddio. Un o'r prif ystyriaethau wrth ddrafftio'r Bil hwn oedd mynd i'r afael ag effeithiau ailddosbarthu er mwyn cynnal proses reoleiddio gadarn.
- 3.13. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau eisoes i adolygu a chryfhau'r dull o reoleiddio cyn cynnal unrhyw ddiwygiadau, wrth ymateb i ailddosbarthu a materion gweithredol eraill. Datblygwyd dull gwell o reoleiddio tai ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, arianwyr, a thenantiaid. Mae'r dull diwygiedig yn adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar risg, gan ganolbwytio ar welliant parhaus, ac, am y tro cyntaf, cyflwyno "Dyfarniad" clir ar berfformiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r Fframwaith Dyfarniad Rheoleiddiol ar waith ers 1 Ionawr 2017.

- 3.14. Mae'r newidiadau a wneir gan y Bil yn cynnwys:

### Rheolaethau Llywodraeth Ganolog

**a) Cydsyniadau gwaredu**

Bydd y Bil yn dileu'r gofynion i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, neu gyn-Landlord Cymdeithasol Cofrestredig waredu â thir. Bydd gofyniad i'w hysbysu yn cael ei gyflwyno yn ei le. (Adrannau 13 ac 14)

Ni fyddai'r gofyniad hysbysu yn caniatáu i Weinidogion Cymru rwystro nac atal trafodiad, ond byddai yn caniatáu i'r sector fod yn destun monitro rheoleiddio. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyfarwyddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar faterion sy'n ymwneud â'r hysbysu megis cyfnod yr hysbysiad, cynnwys yr hysbysiad, a'r amgylchiadau pan ellid peidio â chydymffurfio â'r gofyniad i hysbysu. Gall y cyfarwyddydau fod yn rhai cyffredinol, neu'n benodol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, eiddo arbennig, math arbennig o warediad, neu amrywiadau eraill. (Adran 5)

**b) Pŵer i gyfarwyddo'r defnydd a ganiateir o enillion a ddaw yn sgil gwaredu**

Bydd y Bil yn dileu pŵer Gweinidogion Cymru i bennu bod yn rhaid dangos enillion a symiau eraill a ddaw yn sgil gwerthiant ar wahân mewn cyfrifon (cronfa'r enillion o warediadau), ynghyd â'r pŵer i gyfarwyddo'r defnydd a ganiateir o'r symiau hynny. Cynigir trefniadau pontio hefyd i roi cyfarwyddyd ynghylch y defnydd o'r symiau ac i bennu terfyn amser nes caiff y gofyniad ei ddileu. Bydd y trefniadau pontio hyn yn cael eu cynnwys yn y gorchymyn cychwyn sy'n ymwneud â dileu'r gronfa enillion o warediadau. (Adran 15)

**c) Newidiadau cyfansoddiadol, trefniadau, ailstrwythuro a diddymu**

Bydd y Bil yn dileu'r gofynion i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad i rai newidiadau cyfansoddiadol, trefniadau, ailstrwythuro a diddymu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd gofyniad i'w hysbysu yn cael ei gyflwyno yn eu lle. (Adrannau 3 a 4)

Ni fydd y gofyniad i hysbysu yn caniatáu i Weinidogion Cymru atal na rhwystro newidiadau cyfansoddiadol, trefniadau, ailstrwythuro na diddymu, ond bydd yn caniatáu i'r sector fod yn destun monitro rheoleiddio. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyfarwyddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar faterion sy'n ymwneud â'r hysbysu megis cyfnod yr hysbysiad, cynnwys yr hysbysiad, a'r amgylchiadau pan ellid peidio â chydymffurfio â'r gofyniad i hysbysu. Gall y cyfarwyddydau fod yn rhai cyffredinol, neu'n benodol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, math arbennig o newid, newid arbennig, neu amrywiadau eraill. (Adran 5)

Bydd pŵer Gweinidogion Cymru i gyflwyno deiseb dirwyn i ben mewn amgylchiadau penodol hefyd yn cael ei ddileu. (Adran 4)

**d) Pwerau rheoleiddio - gorfodi**

Bydd y Bil yn gwneud newidiadau i'r amodau neu'r trothwy lle caiff Gweinidogion Cymru weithredu mewn ffordd benodol i orfodi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cynigir y bydd y trothwy yn gysylltiedig ag amgylchiadau pan fo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, yn hytrach na'r trothwy presennol sy'n gysylltiedig â chamymddwyn neu gamreoli. (Adran 11)

## Rheolaethau Llywodraeth Leol

**e) Pŵer newydd i leihau dylanwad Awdurdodau Lleol dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru**

Mae'r ONS wedi dangos bod y trefniadau presennol rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr gan fwyaf, i gadw lleoedd i awdurdodau lleol ar Fyrddau, ac mewn rhai achosion rhoi hawliau pleidleisio penodol i awdurdodau lleol, gan gynnwys pwerau fetu o'u hanfod ar faterion gan gynnwys newid cyfansoddiadol, yn ddangosyddion rheolaethau, ac felly bod angen eu diwygio. (Adran 16)

Mae'r Bil yn cyflwyno darpariaethau i wneud y canlynol:

- cyfyngu ar y lleoedd a gedwir ar gyfer penodedigion awdurdodau lleol ar unrhyw Fwrdd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru i uchafswm o 24% o gyfanswm nifer aelodau'r Bwrdd;
- na fydd angen mwy na 75% o bleidleisiau i basio penderfyniad gan y Bwrdd;

- dileu'r gofyniad i benodedigion awdurdodau lleol fod yn bresennol er mwyn cael cyfarfod cworwm;
- dileu unrhyw hawl bleidleisio lywodraethol neu unrhyw hawliau cydsynio eraill sydd gan awdurdod lleol neu benodedigion awdurdodau lleol ar hyn o bryd, gan gynnwys fel aelodau o'r Bwrdd neu fel aelod (e.e. cyfranddaliwr) o gorff y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig;
- dileu hawliau pleidleisio awdurdod lleol fel aelod o gorff y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig;
- creu pŵer i wneud gorchymyn i ddatgymhwys o'r darpariaethau hyn mewn perthynas â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd ym mherchnogaeth Iwyr awdurdod lleol, neu awdurdodau lleol.

Bydd unrhyw ddarpariaethau o'r fath yn drech na'r hawliau presennol sydd gan awdurdodau lleol i enwebu lleoedd ar y Bwrdd, p'un a yw hynny'n codi o reolau neu gontactau'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig.

## 4. Ymgynghoriad

- 4.1. Ers i'r ONS ddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gyrrf sector cyhoeddus yn 2016, mae rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig felly aelodau'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio, wedi bod yn rhan o'r trafod â swyddogion ynghylch datblygu cynigion ar gyfer diwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio. Cynrychiolwyr o'r cyrff canlynol sy'n rhan o'r Grŵp:
  - Cartrefi Cymunedol Cymru, y corff sy'n cynrychioli sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
  - Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi
  - Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru
  - Tenantiaid Cymru - y corff sy'n cynrychioli tenantiaid
  - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
  - Bwrdd Rheoleiddiol Cymru – Bwrdd annibynnol a benodir yn gyhoeddus i gynghori Gweinidogion Cymru
  - Sefydliad Tai Siartredig Cymru
  - Shelter Cymru
- 4.2. Mae'r mater wedi cael cryn sylw yn y wasg dai arbenigol, ac mae sector y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn llwyr ymwybodol o'r materion dan sylw. Mae'r rhain yn cynnwys penderfyniad Llywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth yn Lloegr, a'r ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n mynd rhagddi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 4.3. Y cyngor a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel cynrychiolydd Llywodraeth leol, a Cartrefi Cymunedol Cymru, fel cynrychiolydd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, oedd na ddylid cynnal ymgynghoriad yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ar 4 Mai 2017, gan y gallai rhai o'r materion sy'n ymwneud â rheolaethau Llywodraeth leol fod yn sensitif a denu sylw. Felly, cytunwyd ar gynnal ymgynghoriad byrrach o 8 wythnos rhwng 8 Mai a 3 Gorffennaf 2017. Mae'r ddogfen ymgynghori i'w gweld yma:  
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-rheoleiddio-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig>
- 4.4. Daeth 29 o ymatebion i law. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cefnogi'r cynigion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae adroddiad cryno o'r ymatebion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.  
<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-rheoleiddio-landlordiaid-cymdeithasol-cofrestredig>
- 4.5. Mae'r rhanddirymiad presennol gan Drysorlys EM (cyfnod o ras cyn l'r newidiadau cyfrifyddu ddod i rym yn sgil ailddosbarthu) yn effeithiol tan fis Mawrth 2018 ar sail y ddealltwriaeth bod Llywodraeth Cymru yn symud y ddeddfwriaeth yn ei blaen cyn gynted â phosibl. Yng ngoleuni'r cyfyngiad amser difrifol hwn, nid oedd yn ymarferol ymgynghori ar y cynnig polisi ac yna ymgynghori ar Fil draft ar wahân.

4.6 Mae'r Bil wedi cael ei ddrafftio mewn ffordd sy'n gydnaws â'r cynnig polisi a nodwyd yn y ddogfen ymgynggori.

## **5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth**

- 5.1. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi cyfarwyddydau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:
  - a. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
  - b. ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
  - c. priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
  - d. y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.
- 5.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)**

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
18	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad yr ystyrir iddi fod yn briodol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil neu oddi tano.	Negyddol ac eithrio pan wneir newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, lle bydd angen y cadarnhaol.	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol pan fo rheoliadau'n diwygio ddeddfwriaeth sylfaenol, lle gallai eu heffaith gael effaith sylweddol ar ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth sylfaenol honno.  Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau sy'n gwneud mân ddarpariaethau technegol.
19	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Caniatáu i Weinidogion Cymru benodi yn ôl gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol ddyddiadau dod i rym y darpariaethau yn y Bil, ynghyd â gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth i arbed mewn cysylltiad â phan fydd darpariaeth yn y Bil yn dod i rym.	Dim gweithdrefn	Mae'r gorchmynion hyn yn ymwneud â chychwyn darpariaethau y caiff eu hystyried a'u pasio gan y Cynulliad.

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
Atodlen 1  Mewnos od adran 7J(1) yn Neddf Tai 1996	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgymhwys o'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau ar reolaethau awdurdodau lleol dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, pan fo Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn is-gorff ym mherchnogaeth Iwyr un neu ragor o awdurdodau lleol.	Negyddol	Mae'r rheoliadau wedi'u cyfyngu o ran pwnc o safbwyt y byddant yn tanio eithriad y darparir ar ei gyfer yn y Bil. O ganlyniad, bach yw manylder y rheoliadau yng nghyd-destun y cynllun deddfwriaethol cyffredinol.
Atodlen 1  Mewnos od adran 7J(7) yn Neddf Tai 1996	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth ar gyfer landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn y gorchymyn, i gael ei drin fel is-gorff dan reolaeth Iwyr awdurdod lleol at ddibenion adran 7J.  Mae hyn yn caniatáu i fodolau arloesol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gynigir gan awdurdodau lleol gael eu cynnwys yn y diffiniad o is-gorff dan reolaeth Iwyr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'n	Negyddol	Mae pwnc y gorchymyn hwn yn fach ac yn dechnegol.

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
			caniatáu ar gyfer datgymhwys o'r darpariaethau sy'n cyfyngu ar ddyylanwad awdurdodau lleol dros y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig dan reolaeth awdurdodau lleol.		

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau yn narpariaethau Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)**

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
5 Mewn os od adran 13A yn Neddf Tai 1996	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'r Bil yn cyflwyno gofyniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru am newidiadau cyfansoddiadol penodol. Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno cyfarwyddydau sy'n pennu ffurf a chynnwys yr hysbysiadau, yn ogystal â nodi amserlenni perthnasol, a chael gwared â'r angen i gael eu hysbysu mewn amgylchiadau penodol.	Dim gweithdrefn	Mae'r cyfarwyddydau'n dod o dan gymhwysiad technegol, ymarferol y gofyniad i hysbysu mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru, ac maent yn gyfyngedig o ran cwmpas.
14 Mewn os od adran 9A yn Neddf Tai 1996	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'r Bil yn cyflwyno gofyniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru am warediadau. Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno cyfarwyddydau sy'n pennu ffurf a chynnwys yr hysbysiadau, yn ogystal â nodi amserlenni perthnasol, a chael gwared â'r angen i gael eu hysbysu mewn amgylchiadau penodol.	Dim gweithdrefn	Mae'r cyfarwyddydau'n dod o dan gymhwysiad technegol, ymarferol y gofyniad i hysbysu mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru, ac maent yn gyfyngedig o ran cwmpas.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

- 6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ac mae'n dilyn ym Mhennod 7. Mae asesiad cost a budd wedi'i gynnwys ym Mhennod 8.
- 6.2. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Tabl A

#### CRYNODEB – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

<b>Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)</b>		
<b>Yr opsiwn a ffefrir:</b> Cyflwyno Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) – gweler tudalen 8 i gael manylion ynghylch darpariaethau'r Bil.		
<b>Cyfnod:</b> Introduction	<b>Cyfnod gwerthuso:</b> 2018/19 – 2022/23 (5 mlynedd)	<b>Blwyddyn sylfaenol pris:</b> 2017/18
<b>Cyfanswm Cost</b> <b>Cyfanswm:</b> £33,000 <b>Gwerth presennol:</b> £33,000	<b>Cyfanswm Manteision</b> <b>Cyfanswm:</b> £48,500-65,000 <b>Gwerth presennol:</b> £45,300-60,800	<b>Gwerth Presennol Net:</b> <b>£12,300-27,800 (budd net)</b>

#### Cost gweinyddu

Bydd swyddogion Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn rheoli'r broses o lunio polisi a deddfwriaeth ar gyfer cyflawni'r pwerau arfaethedig. Mae'n bosibl y bydd swyddogion yn bresennol mewn sesiynau briffio ac yn gwneud cyflwyniadau ar y newidiadau mewn amrywiol gynadleddau, ond gweithgareddau arferol yw'r rhain ac nid oes disgwyl iddynt arwain at gostau ychwanegol. Felly, ni fydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru wrth greu'r darpariaethau newydd na gweithredu'r Bil.			
<b>Trosiannol:</b> £0	<b>Rheolaidd:</b> £0	<b>Cyfanswm:</b> 0	<b>Gwerth Presennol:</b> £0
<b>Arbedion costau:</b> Rhagwelir y bydd arbedion anariannol i Lywodraeth Cymru wrth weithredu'r darpariaethau newydd. Arbedion bach yw'r rhain o amser staff wrth i ofyniad i hysbysu ddisodli'r drefn gydsynio ar gyfer gwareidiadau ac ailstrwythurau. Rhagwelir y bydd yr arbedion gyfystyr â thua 30% o swydd amser llawn (cyfuniad o swyddi EO/HEO) sef rhwng £9,700 a £13,000 y flwyddyn yn seiliedig ar ganolbwyt y graddau cyflog. Mae disgwyl i'r arbedion blynnyddol hyn gronni o 2018-19. Mae disgwyl i'r gwaith o weithredu'r newidiadau eraill fod yn niwtral o ran cost.			
<b>Trosiannol:</b> £0	<b>Rheolaidd:</b> £9,700 – 13,000	<b>Cyfanswm:</b> £48,500 – 65,000	<b>Gwerth Presennol:</b> £45,300 – 60,800
<b>Cost weinyddol net:</b> £-48,500-65,000 arbedion anariannol			

## Costau cydymffurfio

Gall gweithredu darpariaethau'r Bil arwain at gostau untro ychwanegol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrth iddynt newid eu rheolau neu eu hoffer llywodraethiant. Nid yw newid y rheolau yn gwbl angenrheidiol gan y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn eu trechu. Er hyn, mae arferion llywodraethiant da yn awgrymu y dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddiweddar eu rheolau, ac felly mae ystod o amcangyfrifon costau wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r senario mwyaf tebygol o ran cost wedi'i ddewis ar gyfer y crynodeb hwn.

Mae hwn yn gost cydymffurfio nad yw'n orfodol.

Trosiannol: £33,000	Rheolaidd: £0	Cyfanswm: £33,000	Gwerth Presennol: £33,000
------------------------	---------------	----------------------	---------------------------------

## Costau eraill

Nid oes unrhyw gostau eraill wedi'u nodi

Trosiannol: £0	Rheolaidd: £0	Cyfanswm: £0	Gwerth Presennol: £0
----------------	---------------	--------------	-------------------------

## Costau heb eu meintoli ac anfanteision

Nid oes unrhyw gostau heb eu meintoli ac anfanteision wedi'u nodi. Un o'r prif ystyriaethau wrth ddatblygu cynigion i fynd i'r afael ag effeithiau ailddosbarthu yw'r angen i gynnal proses reoleiddio gadarn. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio, y nod oedd gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl er mwyn i'r ONS ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ôl i'r sector preifat. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i gryfhau rheoleiddio drwy fabwysiadu Fframwaith Dyfarniad Rheoleiddio diwygiedig sy'n ymateb i ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio drwy safonau perfformiad newydd y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu bodloni, yn ogystal â chyhoeddi dyfarniad rheoleiddio ar berfformiad pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru.

## Manteision

Diben y ddeddfwriaeth yw diwygio neu ddileu rheolaethau a nodwyd gan yr ONS fel dangosyddion rheolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog sydd wedi arwain at y penderfyniad i ailddosbarthu. Bydd gwrthdroi dosbarthiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn golygu na fydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ysgwyddo unrhyw ganlyniadau andwyol i'r gyllideb er mwyn cyflawni'r rhaglen tai fforddiadwy, gan y bydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn parhau i fenthyca £200m y flwyddyn ar gyfartaledd o'r sector preifat i chwarae'r rôl allweddol yn y gwaith o helpu i fodloni targed Llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

**Cyfanswm: 0**

**Gwerth Presennol: £0**

## Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

Bydd y Bil a gynigir yn diwygio neu'n dileu rheolaethau a nodwyd gan yr ONS a arweiniodd at y penderfyniad i ailddosbarthu, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016. Mewn ymateb i gynnig polisi a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfrifon Gwladol ac Ystadegau Economaidd ym mis Ebrill 2017, pe byddai'r diwygiadau i reolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog yn cael eu gweithredu yn y ffordd a ddisgrifir, byddai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mewn egwyddor, yn cael eu halldosbarthu a bydd yr ONS yn hapus i adolygu'r dosbarthiad pan fydd y ddeddfwriaeth wedi dod i rym. Mae darpariaethau'r Bil wedi'u drafftio i effeithio ar y cynnig polisi. Daw'r costau, y rhagdybiaethau a'r dystiolaeth allweddol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gyhoeddiadau'r sector, neu maent wedi'u darparu gan gynrychiolwyr y sector. Caiff y costau a'r manteision eu cyflwyno gan ystyried y sefyllfa cyn i'r ONS ail-ddosbarthu'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

## **7. Yr opsiynau**

### **Opsiwn 1: Gwneud dim a delio â'r canlyniadau o ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'r sector cyhoeddus**

- 7.1 Byddai ailddosbarthu yn arwain at nifer o oblygiadau i Lywodraeth Cymru (fel y manylir ym mhennod 8 isod).

### **Opsiwn 2: Cyflwyno Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)**

- 7.2 Bydd y Bil yn cynnwys y darpariaethau i ddiwygio rheoleiddio er mwyn dileu rheolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog gan ganiatáu i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) adolygu dosbarthiad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- 7.3 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## 8. Costau a Manteision

- 8.1. Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad o gostau a manteision yr opsiynau a amlinellir ym Mhennod 7. Y cyfnod gwerthuso a ddefnyddir wrth ddadansoddi yw 2018-19 i 2022-23. Cyflwynir y costau a'r manteision mewn perthynas â'r sefyllfa cyn i'r ONS ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

### **Opsiwn 1: Gwneud dim a delio â'r canlyniadau o ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'r sector cyhoeddus**

- 8.2. Byddai'r opsiwn hwn yn effeithio ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, ac felly ar ei rhaglen tai fforddiadwy.
- 8.3. Byddai'n effeithio ar amser staff Llywodraeth Cymru o ran casglu ffurflenno blynnyddol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd o fewn cwmpas Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Byddai'n ofynnol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lenwi ffurflen casglu data Llywodraeth Gyfan.
- 8.4. Mae goblygiadau o ran cost i'r gwaith hwn ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Llywodraeth Cymru. Mae'r goblygiadau o ran cost yn cael eu dadansoddi yn fanylach ym mharagraffau 21-26 isod.

### **Manteision**

- 8.5. Ni fyddai unrhyw newid i reolaethau Llywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig nac unrhyw newid i'r trefniadau rheoleiddio presennol.

### **Risgau**

- 8.6. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i reoli lefelau benthyca Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau y caiff eu cadw o fewn cyfyngiadau cyffredinol y gyllideb. Mae'n debygol y byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar darged y Llywodraeth i adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy newydd.
- 8.7. Dylid nodi bod Trysorlys ei Mawrhydi wedi caniatáu cyfnod rhanddir ymu. Effaith hyn yw nad oes disgwl i lefel fenthyca Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymddangos yng Nghyfrifon Llywodraeth Gyfan wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei sefydlu. Er mai'r cyfnod dadansoddi costau a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw 2018/19 ymlaen, pe byddai'r opsiwn i 'wneud dim' yn cael ei ddewis, byddai'r costau a amlinellwyd ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Llywodraeth Cymru yn berthnasol o 2017/18 ymlaen, yn yr un modd â'r effeithiau ar wariant cyfalaf fel yr amlinellir isod.

## Gwariant Cyfalaf

- 8.8. Ar hyn o bryd, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn darparu dros 141,000 o dai fforddiadwy sy'n gartref i bron 10% o boblogaeth Cymru. Yn 2016/17, adeiladwyd neu gaffaelwyd 1,344 o dai gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ariannu cyfran helaeth o ddatblygiadau tai drwy fenthyg arian gan y sector preifat i ychwanegu at unrhyw arian grant.
- 8.9. Mae'n bosibl y gallai dosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru fel Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol effeithio ar Derfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf (DEL Cyfalaf) o £213 miliwn y flwyddyn (y cyfartaledd yn seiliedig ar y 6 blynedd diwethaf). Byddai Dyled Net y Sector Cyhoeddus hefyd yn cynyddu tua £2.5 biliwn gan y bydd unrhyw lefelau benthyca marchnad y sector preifat a gymerir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newydd eu dosbarthu i'r sector cyhoeddus yn sgorio fel tâl yn erbyn cylidebau Llywodraeth Cymru. Mae crynodeb o lefelau benthyca Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig dros y flwyddyn ddiwethaf yn y tabl isod:

£m	Mawrth 2010	Mawrth 2011	Mawrth 2012	Mawrth 2013	Mawrth 2014	Mawrth 2015	Mawrth 2016
<b>Benthyciadau heb eu casglu</b>	1275	1478	1700	1984	2187	2369	2555
<b>Symudiad blynnyddol benthyciadau</b>		203	222	248	239	182	186

(Ffynhonnell – Cyfriflenni Ariannol 2016 o Gymdeithasau Tai Cymru, cyhoeddwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru/Llywodraeth Cymru)

- 8.10. Ar ôl dadansoddi cynnwys y gyllideb gyffredinol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel corfforaethau cyhoeddus, nid yw'n ymddangos bod unrhyw oblygiadau pellach ar adnoddau na chyfalaf.
- 8.11. Y lefelau benthyca a ddangosir yn y tabl yw'r cyllid preifat y mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ei ddefnyddio i gefnogi'u rhaglenni datblygu. Yn ogystal â hynny, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, grantiau eraill ac maent yn defnyddio gwargedion eiddo presennol i ariannu'r gwaith o ddatblygu cartrefi newydd. Ar hyn o bryd, mae'r Grant Tai Cymdeithasol, sef y prif grant ar gyfer cartrefi fforddiadwy, wedi'i osod ar 58% o'r costau datblygu cymwys. Mae i un o'r grantiau perthnasol eraill, sef Grant Cyllid Tai 2, yr effaith tymor byr o ystumio cyfran y cyllid preifat sy'n ofynnol gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae Grant Cyllid Tai 2 yn fenter tair blynedd lle telir y grant fel ffrwd refeniw dros 30 mlynedd i ariannu benthyca ymlaen llaw gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd hyn yn cynyddu lefelau benthyca Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y ddwy flynedd nesaf a bydd, yn y tymor byr, yn gostwng cyfradd grant gyffredinol Llywodraeth Cymru i tua 35%, gan gynyddu'r gyfradd cyllid preifat i

65%. Nid oes gwybodaeth ar gael am union effeithiau ariannol y fenter hon eto, ond nid oes disgwyl i'r gyfradd fenthyca gynyddol ymestyn y tu hwnt i gyfnod Grant Cyllid Tai 2 sy'n dod i ben yn 2019/20. Bydd y blynnyddoedd olaf yn effeithio llai ar fenthyca wrth i'r grant ddod i'w derfyn, ac felly mae unrhyw effaith dros dro Grant Cyllid Tai 2 wedi'i diystyr at y dibenion hyn.

- 8.12. Mae'r sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi ymrwymo i ddarparu dim llai na 12,500 o dai fforddiadwy newydd, o darged y Llywodraeth o 20,000, yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Mae'r ymrwymiad hwn yn seiliedig ar y ffaith bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn sefydliadau'r sector preifat, gan feddu ar y rhyddid i fenthyca a gwneud penderfyniadau cyllido. Amcangyfrifir bod angen benthyca tua £1.016 biliwn i gyflawni'r targed o ddarparu 12,500 o gartrefi (mae'r rhagdybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yn Atodiad 1). Felly, er mwyn cyflawni ymrwymiadau tai cymdeithasol y Llywodraeth, pe na fyddai'r DEL Cyfalaf yn gallu ymgorffori'r £1.016 biliwn, byddai'r raglen, mewn gwirionedd, yn codi 42% neu 5,040 yn llai o dai fforddiadwy newydd, ac nu fyddai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gallu cael benthyg i fuddsoddi yn y stoc bresennol.

### **Opsiynau Lliniaru Posibl**

- 8.13. Gallai Trysorlys Ei Mawrhydi ymgodi'r DEL Cyfalaf i gynnwys y benthyca ychwanegol i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cafodd yr opsiwn hwn ei awgrymu mewn gohebiaeth i Drysorlys Ei Mawrhydi, ond ni chafwyd ymateb cadarnhaol. Ni wnaeth Trysorlys Ei Mawrhydi ymgodi'r DEL Cyfalaf yn Lloegr lle bu'n rhaid llunio deddfwriaeth er mwyn ailldosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ôl i'r sector preifat.
- 8.14. Gallai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fenthyca gan Lywodraeth Cymru. O fis Ebrill 2018, daw pwerau newydd i rym i Lywodraeth Cymru fenthyca er mwyn cefnogi prosiectau buddsoddi cyfalaf. Mae'r terfyn benthyca blynnyddol wedi'i gapio i ddechrau ar £125 miliwn, gan godi i £150 miliwn o 2019/20 ymlaen, i uchafswm o £1 biliwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau gwario cyfalaf hyd at 2020/21 sy'n defnyddio £395 miliwn o'r £445 miliwn sydd ar gael i'w benthyca. Felly, ni fyddai digon o gapasiti yn weddill i ddarparu ar gyfer gofyniad benthyca blynnyddol presennol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (tua £203 miliwn y flwyddyn cyn unrhyw dwf a allai fod yn angenrheidiol dros y blynnyddoedd nesaf) a hyd yn oed pe byddai digon o gapasiti, byddai hyn yn effeithio ar y cynlluniau gwario a gyhoeddwyd.

## **Costau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant yng Nghyfrifon Llywodraeth Gyfan**

8.15. Ar hyn o bryd, mae 87 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru, 34 o rai mawr a 53 o rai de minimis (sydd â llai na 250 o gartrefi). Mae'n ofynnol eu cynnwys yng Nghyfrifon Llywodraeth Gyfan os yw'r corff yn rhagori ar y trothwy perthnasedd i'w ddosbarthu fel is-gorff, sy'n £10 miliwn ar hyn o bryd, ar nifer o feini prawf cyfrifon statudol sef incwm a gwariant, asedau ac atebolrwyddau. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lenwi offeryn casglu data Cyfrifon Llywodraeth Gyfan gan gynnwys cytuno ar drafodiadau a'u gwaredu â chyrff cyhoeddus eraill yn y DU. Bydd angen i swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd gytuno ar y trafodiadau â'r cyrff hyn a lanlwytho ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan i Drysorlys Ei Mawrhydi. Yn ogystal â hyn, pan fo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn rhagori ar gyfyngiad o £350 miliwn ar yr un meinu prawf cyfrifon statudol, ceir gofyniad ychwanegol i gynnal archwiliad llawn o'u ffurflen casglu data.

### **Costau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig**

8.16. Mae'r dadansoddi cychwynnol yn awgrymu na fydd 52 o'r 53 o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig de minimis yn rhagori ar drothwy perthnasedd yr is-gorff. Mae'r un a fydd yn rhagori ar y trothwy yn gyfuniad o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig llai sydd, gyda'i gilydd, yn rhagori ar y trothwy ac felly caiff ei drin at ddibenion y dadansoddiad hwn fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig mawr. Felly at ddiben y papur hwn, cyfanswm nifer y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mawr yw 35.

8.17. Bydd yn ofynnol i bob un o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hyn ddangos tystiolaeth o'u statws fel is-gorff bob blwyddyn. Amcangyfrifir y gwaith hwn isod:

Diwrnodau	Swydd	Tasg	Cost £ y flwyddyn
0.5	Rheolwr Cyllid	Paratoi gwaith papur fel tystiolaeth	150
		Cyfanswm fesul LCC	150
		<b>Cyfanswm y 52 LCC</b>	<b>7800</b>

8.18. O'r 35 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mawr, amcangyfrifir y bydd 6 (2017/18) yn rhagori ar y cyfyngiad archwilio o £350 miliwn, ac y byddant felly yn wynebu costau archwilio. Mae'r tablau isod yn amlinellu amcangyfrif o'r costau ar gyfer y 29 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y bydd gofyn iddynt lenwi ffurflen casglu data, a'r 6 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a fydd yn wynebu costau archwilio ychwanegol:

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig heb ofyniad i archwilio

Diwrnodau	Swydd	Tasg	Cost £ y flwyddyn
5.0	Rheolwr Cyllid	Llenwi ffurflen gan gynnwys gweddill a hysbysiad trafodiadau a phroses gytuno â chyrff parti i contract	1500
		Cyfanswm fesul LCC	1500
		<b>Cyfanswm y 29 LCC</b>	<b>43500</b>

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig â gofyniad ychwanegol i archwilio

Diwrnodau	Swydd	Tasg	Cost £ y flwyddyn
10.0	Rheolwr Cyllid	Llenwi ffurflen gan gynnwys gweddill a hysbysiad trafodiadau a phroses gytuno â chyrff parti i contract a pharatoi ar gyfer archwiliad	3000
5.0	Archwiliad	Archwiliad llawn o'r ffurflen ddata a dogfennau cysylltiedig	3500
		Cyfanswm fesul LCC	6500
		<b>Cyfanswm y 6 LCC</b>	<b>39000</b>

Ffynhonnell yr Wybodaeth Ariannol ar gyfer y 34 LCC mawr – Cyfriflenni Ariannol 2016 o Gymdeithasau Tai Cymru, cyhoeddwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru/Llywodraeth Cymru)

### Costau Llywodraeth Cymru

8.19. Nodir isod amcangyfrif o'r costau i Lywodraeth Cymru:

Diwrnodau	Gradd	Tasg	Cost £ y flwyddyn
2.0	E	Darparu Hyfforddiant Ymsefydlu ar gyfer LCC	400
5.0	E	Cymorth parhaus i LCC ar gyfer y broses o lenwi'r ffurflen casglu data	1000
		<b>Cyfanswm</b>	<b>1400</b>

Yr holl gostau i'r £100.00 agosaf  
Costau Cyflogau LIC – canolbwyt y raddfa gan gynnwys argostau, amcangyfrif o gyflogau LCC yn cynnwys 40% argostau.

8.20. Amcangyfrifir y bydd y gost i Lywodraeth Cymru yn **£1400** yn y flwyddyn gyntaf.

8.21. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn **£90,300** y flwyddyn yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod. Gan fod amcangyfrifon o'r costau yn seiliedig ar y gofynion a osodir gan drothwyon y cyfrifon statudol, ni fydd y costau hyn yn sefydlog ac ni fyddant yn cael eu cadarnhau tan y bydd y cyfrifon statudol ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw.

### Crynodeb o'r costau – Opsiwn 1

£000oedd	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
Llywodraeth Cymru	1.4	1.4	1.4	1.4	1.4	1.4
LCC	90.3	90.3	90.3	90.3	90.3	90.3
Cyfanswm	91.7	91.7	91.7	91.7	91.7	91.7

### Opsiwn 2: Cyflwyno Bil y Cynulliad

8.22. Byddai Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn dileu neu'n diwygio'r rheolaethau rheoleiddio perthnasol sy'n nodi, yn ôl casgliad yr ONS, bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn gyhoeddus, ac felly'n cynhyrchu ar gyfer y farchnad. Cânt eu hailddosbarthu i'r is-sector Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol at ddibenion cyfrifon gwladol ac ystadegau economaidd eraill ONS.

8.23. Mae deddfwriaeth debyg eisoes wedi dod i rym yn Lloegr a dywedwyd wrthym bod adolygiad pellach ar benderfyniad yr ONS i ailddosbarthu ar y gweill. Mae cynlluniau Llywodraeth yr Alban i gyflwyno deddfwriaeth debyg yn fwy datblygedig. Gofynnwyd am gyngor yr ONS wrth lunio polisi Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â materion penodol rheoli.

8.24. Y brif ystyriaeth arall wrth ddatblygu cynigion i fynd i'r afael ag effeithiau ailddosbarthu yw'r angen i gynnal proses reoleiddio gadarn. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio, y nod oedd gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl er mwyn i'r ONS ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ôl i'r sector preifat. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i gryfhau rheoleiddio drwy fabwysiadu Fframwaith Rheoleiddio diwygiedig sy'n ymateb i ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio drwy safonau perfformiad newydd y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eu bodloni yn ogystal â chyhoeddi dyfarniad rheoleiddio ar berfformiad pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru.

## **Costau**

- 8.25. Bydd swyddogion Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn rheoli'r broses o lunio polisi a deddfwriaeth ar gyfer cyflawni'r pwerau arfaethedig. Felly, ni fydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru wrth greu'r darpariaethau newydd. Fodd bynnag, mi fydd gweithgareddau yn gysylltiedig â gweithredu'r Bil, wrth i swyddogion Llywodraeth Cymru fynd i sesiynau briffio a gwneud cyflwyniadau am y newidiadau mewn amrywiol gynadleddau. Ni ddisgwylir y bydd unrhyw ganllawiau penodol nac unrhyw ddeunyddiau eraill yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru oherwydd darpariaethau'r Bil yn unig.
- 8.26. Amser staff yw prif gydran y gweithgareddau hyn. Mae hwyluso a/neu fynychu sesiynau o'r fath yn rhan o waith arferol swyddogion felly ni fydd hyn yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.
- 8.27. Gall gweithredu darpariaethau'r Bil arwain at gostau untro ychwanegol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gallai'r newidiadau arfaethedig, yn enwedig y newidiadau sy'n ymwneud â rheolaethau awdurdodau lleol, arwain at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn adolygu eu hoffer llywodraethiant neu reolau er mwyn darparu ar gyfer y newidiadau i nifer y lleoedd sy'n cael eu cadw ar y Bwrdd ar gyfer enwebiadau awdurdodau lleol, er enghraift. Ni fydd yn gwbl angenrheidiol newid y rheolau gan y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn eu trechu ym mhob achos. Fodd bynnag, byddai llywodraethiant da yn awgrymu y dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddiweddar eu rheolau, ac felly darperir amcangyfrifon o'r costau.
- 8.28. Amcangyfrifir y byddai'r gost o newid rheolau tua £3,000 ar gyfer pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, gan gynnwys cyngor cyfreithiol. Mae'r tabl isod yn amlinellu 3 senario posibl. Mae'r cyntaf, a'r mwyaf tebygol, yn tybio y bydd pob un o'r 11 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (Ile bo stoc dai flaenorol awdurdodau lleol wedi trosglwyddo i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newydd) yn newid y rheolau. Y rheswm dros hyn yw mai dyma'r sefydliadau yr effeithir arnynt fwyaf gan y newidiadau arfaethedig i reolaethau awdurdodau lleol yn y Bil. Mae'r ail senario yn amlinellu'r costau pe byddai pob un o'r 34 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mawr yn newid eu rheolau o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil, ac mae'r trydydd yn amlinellu'r costau pe byddai pob un o'r 87 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn newid ei reolau.
- 8.29. Fodd bynnag, dylid nodi bod senario 2 a 3 yn annhebygol iawn gan nad oes disgwyl i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mawr a'r 53 o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig de minimis newid eu rheolau o ganlyniad i'r Bil gan nad yw'r newidiadau mor debygol o effeithio arnynt o gymharu â'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr.

8.30. Mae'r costau hyn wedi'u hamcangyfrif ar y cyd â Cartrefi Cymunedol Cymru, sef y corff sy'n cynrychioli Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru ac at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, tybir y byddai'r costau hyn yn codi yn 2018/19, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.

#### Amcangyfrif o'r Costau o Newid y Rheolau

Nifer y LCC	Cyfanswm y Gost o Newid y Rheolau £000
11 LCC Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr	33
34 (pob LCC mawr)	102
87 (pob LCC gan gynnwys de minimis)	261

8.31. Rhagwelir y bydd arbedion anariannol i Lywodraeth Cymru wrth weithredu'r darpariaethau newydd. Arbedion bach yw'r rhain o amser staff wrth i ofyniad i hysbysu ddisodli'r drefn gydsynio ar gyfer gwarediadau ac ailstrwythurau. Rhagwelir y bydd yr arbedion cyfwerth â thua 30% o swydd amser llawn (cyfuniad o swyddi EO/HEO) sef rhwng £9,700 a £13,000 y flwyddyn (o 2018-19) yn seiliedig ar ganolbwyt y graddau cyflog. Mae disgwyl i'r gwaith o weithredu'r newidiadau eraill fod yn niwtral o ran cost.

#### **Manteision**

8.32. Diben y ddeddfwriaeth yw diwygio neu ddileu rheolaethau a nodwyd gan yr ONS fel dangosyddion rheolaethau llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog sydd wedi arwain at y penderfyniad i ailddosbarthu. Bydd gwrthdro'i'r penderfyniad i ddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'r sector cyhoeddus at ddibenion y Cyfrifon Gwladol yn golygu na fydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ysgwyddo unrhyw ganlyniadau andwyol posibl (fel yr amlinellir yn Opsiwn 1 uchod), gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig barhau i chwarae'r rôl allweddol wrth helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy newydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon, yn ogystal â chyfrannu'n gadarnhaol at y cymunedau maent yn gweithredu ynddynt lle bydd cymdeithasau tai yn rhan o greu hyd at 12,500 o gyfleoedd i hyfforddi a chael cyflogaeth ynghyd â datblygu sgiliau a rhoi cymorth i 25,000 o bobl.

#### **Risgiau**

8.33. Nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar yr ONS fod rheolaethau'r llywodraeth dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, fel y nodwyd, wedi'u diwygio neu'u dileu yn ôl yr angen a bod y gwaith o wrthdro'i'r penderfyniad i ddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'r sector cyhoeddus at ddibenion y cyfrif gwladol yn methu.

8.34. Os nad yw Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill yn cefnogi'r diwygiad i'r drefn ar gyfer rheoleiddio fel yr amlinellir yn y Bil, mae'n bosibl y byddant yn herio darpariaethau'r Bil. Pe byddai'r darpariaethau hyn yn newid, gallai hyn arwain yn y pen draw at y Bil yn methu â sicrhau'r ailddosbarthiad.

8.35. Mae symud o drefn gydsynio i ofyniad i hysbysu yngylch gwareidiadau a newidiadau cyfansoddiadol yn cyflwyno rhywfaint o risg os yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwneud penderfyniadau gwael.

### Lliniaru

8.36. Trafodwyd ag ONS wrth ddatblygu cynigion y Bil, felly dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu'r sicrwydd sydd ei angen arnynt. Byddem yn disgwyl i'r ONS adolygu dosbarthiad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig cyn pen chwe mis o'r Cydsyniad Brenhinol, sydd i'w ddisgwyl ym mis Mehefin 2018.

8.37. Bwriad ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion i ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio ac ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r cynigion hyn a'r Bil ei hun, oedd lliniaru'r risg bod rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol yn herio darpariaethau'r Bil.

8.38. Mae'r safonau perfformiad sydd yn y Fframwaith Rheoleiddio newydd yn amlinellu'n glir y disgwyliadau sydd ar Fyrddau i wneud penderfyniadau gwybodus a phriodol am bob mater sy'n ymwneud â'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r Fframwaith yn darparu ymateb diffiniedig i bryderon rheoleiddio a perfformiad gwael gyda barn gyhoeddus glir ar safbwyt Rheoleiddiwr o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

### Yr opsiwn a ffefrir

8.39. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 2 sef cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i osgoi'r effeithiau negyddol a amlinellir yn opsiwn 1. Mae'r Bil yn cynnwys y pwerau allweddol sydd angen eu diwygio er mwyn bodloni Pwyllgor Dosbarthu yr ONS i ganiatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael eu dosbarthu unwaith eto i'r is-sector Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol at ddiben y cyfrifon gwladol ac ystadegau economaidd eraill ONS.

## 9. Asesiadau Effaith Penodol

9.1. Ystyriwyd y Bil mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

9.2. Nod y Bil yn y pen draw yw diogelu a chynnal y cyflenwad o dai cymdeithasol yng Nghymru. Ceir cysylltiad amlwg rhwng y nod hwn a phump o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Cymru lewyrchus**

Gall darparu tai cost isel, sydd o ansawdd uchel leihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai. Mae oedolion sydd â chartref diogel a sefydlog yn fwy tebygol o gael cyflogaeth barhaol, sy'n talu'n well.

- **Cymru iachach**

Mae amodau tai gwael yn cael effaith ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae unigolion mewn cartrefi diogel, sefydlog hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd.

- **Cymru fwy cyfartal**

Bydd diogelu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb o ran tai. Gall tai fforddiadwy safonol hefyd helpu i fynd i'r afael â'r amrywiaeth eang o anghydraddoldeb mewn meysydd fel iechyd ac addysg.

- **Cymru o gymunedau cydlynus**

Gall darpariaeth wael o dai gyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o densiwn yn y gymuned, sy'n arwain at lefel isel o gydlyniant.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mae sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl leol yn helpu i osgoi newidiadau i broffil demograffig ac ieithyddol cymunedau, a'r gostyngiad dilynol yn nifer y cymunedau yng Nghymru lle gall mwyafrif y boblogaeth siarad Cymraeg.

## **Asesiadau Effaith**

9.3. Ystyriwyd nifer o asesiadau effaith, nail ai drwy ddulliau sgrinio neu drwy gynnal gweithdrefn asesu lawn. Effaith anuniongyrchol, yn hytrach nag uniongyrchol, a gaiff y Bil o ran sawl un o'r asesiadau, ac effaith fach, os o gwbl, a gaiff ar rai eraill. Dyma'r asesiadau effaith yr ystyriwyd:

- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
- Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth
- Asesiad o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd
- Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd
- Asesiad o'r Effaith ar lechyd
- Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder
- Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd
- Asesiad o'r Effaith ar Gefn gwlad
- Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd
- Asesiad o'r Effaith ar y Trydydd Sector

### **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

9.4. Nododd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - Cymraeg 2050, fod y nifer cyfyngedig o dai fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol wedi effeithio'n ddwys ar broffil demograffig ac ieithyddol llawer o gymunedau. Byddai mesurau i ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio yn cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad hwn drwy ddiogelu a chynnal y cyflenwad o dai cymdeithasol mewn gymunedau gwledig a chymunedau sy'n siarad Cymraeg.

9.5. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion polisi i ddiwygio'r drefn ar gyfer rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cynnwys asesiad drafft o'r effaith ar y Gymraeg. Ystyriwyd y sylwadau a ddaeth i law o ran yr ymgynghoriad a'r asesiad effaith drafft.

9.6. Cyhoeddir yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulation-of-registered-social-landlords-impact-assessments/?lang=cy>

### **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

9.7. Mae dystiolaeth gref yn dangos y gallai trawstoriad eang o'r boblogaeth elwa ar sefyllfa lle byddai mwy o dai cymdeithasol fforddiadwy, safonol ar gael. Mae hyn yn cynnwys nifer sylweddol o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gan eu bod mewn mwy o berygl o ddigartrefedd, yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan dlodi, ac yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu tŷ eu hunain. Bydd diogelu a chynnal y cyflenwad o dai cymdeithasol o fudd i unrhyw unigolyn sy'n debygol o fod yn gymwys am dŷ cymdeithasol.

- 9.8. Cyhoeddir yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulation-of-registered-social-landlords-impact-assessments/?lang=cy>

### **Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

- 9.9. Cafodd hawliau plant eu hystyried drwy weithdrefn asesiadau effaith Llywodraeth Cymru, sy'n mesur yr effaith ar blant, pobl ifanc, a'u hawliau. Bydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, y mae angen tai cymdeithasol arnynt. Byddai hyn yn cynnwys rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed, ac yn arbennig felly'r rhai a gaiff eu heffeithio gan dlodi.
- 9.10. Cyhoeddir yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulation-of-registered-social-landlords-impact-assessments/?lang=cy>

### **Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth**

- 9.11. Ystyriwyd effaith y Bil ar fioamrywiaeth a'r rheoliadau cynefin, ac fe gytunwyd na fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar yr un ohonynt. Mae darpariaethau'r Bil yn dechnegol ac yn ymwneud â rheolaeth y sector cyhoeddus dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ni fydd y Bil ei hun yn arwain at adeiladu tai nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Bydd yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig barhau i fenthyca i ariannu tai newydd (y cynlluniwyd ar eu cyfer) a fydd yn destun rheoliadau cynllunio ac asesiadau effaith arferol.

### **Asesiad o'r Effaith ar y Newid yn yr Hinsawdd**

- 9.12. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ymrwymo pob sector i gyfrannu at darged y Llywodraeth i leihau allyriadau o 3% yn y meysydd datganoledig. Dylai polisiau naill ai fod yn garbon niwtral, neu gefnogi'r gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn rhyw ffordd. Ni fydd yn arwain at adeiladu tai nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Bydd y Bil yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig barhau i fenthyca i ariannu tai newydd (y cynlluniwyd ar eu cyfer) a fydd yn destun rheoliadau cynllunio ac asesiadau effaith arferol. Ni fydd yn arwain at adeiladu ychwanegol felly mae'n garbon niwtral.

### **Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd**

- 9.13. Cynhaliwyd asesiad sgrinio cychwynnol. Dangosodd na fyddai angen cynnal asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd gan na fydd y Bil yn arwain at welliannau amaethyddol ar dir heb ei drin neu ardaloedd rhannol naturiol, ac nad yw'n darparu ar gyfer ailstrwythuro daliadau tir yng nghefn gwlad.

## **Asesiad o'r Effaith ar lechyd**

9.14. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar lechyd mewn perthynas â'r Bil. Mae'r effaith gadarnhaol a gaiff tai fforddiadwy a diogel ar iechyd unigolion yn cael ei chydnabod yn eang ac yn ddiamheuol. Mae dystiolaeth sylweddol fod yr effaith fanteisiol a gaiff tai safonol yn ddangosydd iechyd. Gallai diogelu'r cyflenwad o dai cymdeithasol fforddiadwy, safonol gael effaith gadarnhaol ar iechyd ar draws pob sector o'r gymuned yn ehangach, ond yn arbennig i grwpiau agored i niwed sef yn aml y rhai y mae angen tai cymdeithasol arnynt fwyaf. Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol.

## **Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder**

9.15. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder. Ni ragwelir unrhyw effaith ar y system gyfiawnder.

## **Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd**

9.16. Ni fydd y cynigion yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion (data personol). Cytunodd swyddog rheoli data Llywodraeth Cymru â hyn.

## **Asesiad o'r Effaith ar Gefn gwlad**

9.17. Cynhaliwyd asesiad sgrinio i brawfesur polisiau o safbwyt anghenion cefn gwlad mewn perthynas â'r Bil. Dangosodd hyn y gallai'r effaith gadarnhaol fod yn fwy amlwg mewn ardaloedd gwledig, lle mae prinder o dai fforddiadwy yn aml yn sylweddol. Gallai hyn ddeillio o amryw ffactorau. Mae prisiau yn aml yn rhy uchel i unigolion ar incwm isel a gall y galw am ail dai arwain at gynnydd pellach yn y prisiau. Mae llawer o eiddo'r awdurdodau lleol hefyd wedi cael eu gwerthu o dan yr "Hawl i Brynu" oherwydd atyniad yr ardaloedd dan sylw.

## **Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd**

9.18. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd a oedd yn edrych ar effaith y Bil ar les amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol. Oherwydd nad diben y Bil yw adeiladu tai y tu hwnt i'r ymrwymiadau presennol, ni fydd yn arwain at adeiladu tai nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Bydd yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig barhau i fenthyca i ariannu tai newydd (y cynlluniwyd ar eu cyfer) a fydd yn destun rheoliadau cynllunio ac asesiadau effaith arferol. Effaith fach a gaiff y Bil ar yr amgylchedd felly. Drwy ddiogelu a gwarchod y cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru, gallai'r Bil gael effaith economaidd a chymdeithasol gadarnhaol ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed a'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## **Asesiad o'r Effaith ar y Trydydd Sector**

9.19. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Trydydd Sector. Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol ar y trydydd sector o ganlyniad i gyflwyno'r Bil. Bydd y Bil yn cael ei gyflwyno er mwyn osgoi'r effaith negyddol a fydd yn deillio o waith ailddosbarthu'r ONS ac anallu dilynol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (gyda llawer ohonynt yn sefydliadau trydydd sector) i ariannu'r gwaith o ddatblygu tai newydd a thai presennol drwy fenthyciadau.

## **Hawliau Dynol**

9.20. Wrth ddrafftio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ystyriwyd yr effaith y byddai'r Bil yn ei chael ar Hawliau Dynol. Nod y Bil yw diogelu a gwarchod y cyflenwad o dai cymdeithasol. Gellid ystyried hyn fel ffordd o helpu i ddarparu tai fforddiadwy safonol i rai o aelodau mwyaf agored i niwed y gymdeithas. Er nad yw'r hawl i gartref yn un o'r hawliau dynol sylfaenol, mae'n sail i sawl un o'r Erthyglau a nodir yn Neddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys:

- Erthygl 8: Yr hawl i barch i fywyd preifat a theuluol a gohebiaeth
- Erthygl 11: Yr hawl i ymgynnnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill
- Erthygl 12: Yr hawl i briodi a sefydlu teulu
- Protocol 1 Erthygl 1: Yr hawl i fwynhau meddiannaeth yn heddychlon.

Gellid ystyried, felly, y byddai diogelu a gwarchod y cyflenwad o dai yn cael effaith gadarnhaol, o bosib, ar hawliau dynol.

## 10. Asesu cystadleuaeth

10.1. Cynhaliwyd prawf hidlo'r gystadleuaeth, ac fe ddangosodd nad oes unrhyw bryderon o ran cystadleuaeth.

10.2. Nid oes disgwyl i'r ddeddfwriaeth gael effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd neu gyflenwyr presennol.

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a ydy'r tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, yn cynrychioli o leiaf 50% o'r farchnad?	Nac ydynt
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai busnesau/sefydliadau lawer iawn mwy nag eraill?	Nac fyddai
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydy
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu?	Na fyddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A oes newidiadau technolegol mawr yn digwydd o fewn y sector?	Nac oes
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu nwyddau?	Na fyddai

## **Adolygu ar ôl gweithredu**

- 11.1 Bydd pa mor effeithiol yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei gadarnhau wrth i'r ONS ailddosbarthu'r sector i is-sector y Corfforaethau Preifat Anariannol. Disgwylir i hyn ddigwydd o fewn chwe mis o'r dyddiad dod i rym.

## **Atodiad 1 – Rhagor o wybodaeth ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

### **Tybiaethau i bennu gofyniad benthyca tebygol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig dros y 5 mlynedd nesaf**

- 1 Bydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn adeiladu 12,500 o gartrefi dros y 5 mlynedd nesaf (fel y cytunwyd ym mis Ionawr 2017), cyfartaledd o 2,500 y flwyddyn
- 2 Bydd angen benthyca preifat er mwyn ychwanegu at raglenni cyllid grant presennol Llywodraeth Cymru ar y cyfraddau isod:

Grant	Rhaglen Grant £000	Cyfradd Cyllid Preifat
Grant Tai Cymdeithasol	325	42%
Grant Cyllid Tai 2	109	100%
Rhanberchnogaeth/Rhentu i Brynu	70	75%
Tai Arloesol	17	42%
Mentrau Iechyd a Thai	60	42%

- 3 Bydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hefyd yn darparu eiddo ychwanegol drwy:  
Adran 106, cytundebau cynllunio – 1000 o eiddo am £140,000 yr un – angen cyllid ar gyfer 42%  
Arall (hunanariannu ac ati) – 1500 o eiddo am £140,000 – cyfartaledd y cyllid sydd ei angen 75%
- 4 Rhaglen Tai Arloesol yn lleihau i £7 miliwn ym mlwyddyn 2 gan y gall y sector preifat hefyd gael mynediad at y cyllid.
- 5 Bydd cymdeithasau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn benthyca £32 miliwn ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd nesaf wrth iddynt fuddsoddi yn eu heiddo presennol a chyrraedd uchafswm eu dyled. Y gofyniad yn 2015 oedd £66 miliwn, a'r gofyniad yn 2016 oedd £48 miliwn.  
Tybir y byddant yn cyrraedd 70% o'u terfyn benthyca ar y cyd (sydd ar hyn o bryd yn 50% yn 2016).
- 6 Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig traddodiadol yn creu arian parod o eiddo presennol i leihau'r gofyniad i fenthycan breifat. Cyfartaledd y 4 blynedd diwethaf yw £20 miliwn.
- 7 Nid yw lefelau benthyca Partneriaeth Tai Cymru wedi'u cynnwys yn ffigur benthyca sylfaenol cyfrifon byd-eang ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr amcanestyniad hwn.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

## **Atodiad 2 - Nodiadau Esboniadol**

# **BIL RHEOLEIDDIO LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (CYMRU)**

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **RHAGARWEINIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Hydref 2017. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil, ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo adran o'r Bil yn hunanesboniadol ac nad ymddengys bod angen unrhyw esboniad na sylw pellach, nis rhoddir.
3. Yn y nodiadau hyn, cyfeirir at Ddeddf Tai 1996 fel "Deddf 1996" a chyfeirir at Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996 fel "Atodlen 1".

### **CRYNODEB A'R CEFNDIR**

4. Cyrff sydd wedi eu cofrestru gyda Gweinidogion Cymru o dan Ran 1 o Ddeddf 1996 yw landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Gallant fod yn elusen gofrestredig, yn gymdeithas a gofrestrwyd o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 neu'n gwmni cofrestredig. Rhaid iddynt fod yn gyrrff nad ydynt yn gwneud elw, ac yn gyrrff wedi eu sefydlu at ddiben darparu, adeiladu, gwella neu reoli tai i'w gosod neu hosteli, neu fod hynny'n rhan o'u hamcanion neu eu pwerau.
5. Ar 29 Medi 2016, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y dylid dosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn Gorfforaethau Cyhoeddus Anariannol yn y cyfrifon gwladol. Y rheswm am hyn yw bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ddarostyngedig i'r hyn y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei alw'n rheolaeth lywodraethol, drwy bwerau rheoleiddio yn bennaf, a nodir yn Neddf 1996. Cyn hynny, roeddent yn cael eu dosbarthu yn Gorfforaethau Preifat Anariannol.
6. Caiff cyfran helaeth o'r rhaglen datblygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ei hariannu drwy fenthyca o'r sector preifat, sy'n ychwanegol at Grant Tai Cymdeithasol a rhaglenni ariannu eraill Llywodraeth Cymru.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

7. Bydd dosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn Gorfforaethau Cyhoeddus Anariannol yn cynyddu Dyled Net y Sector Cyhoeddus a Lefel Fenthyca Net y Sector Cyhoeddus, gan y bydd unrhyw fenthyciadau marchnad y sector preifat (£200 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd ar hyn o bryd) gan y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd newydd eu dosbarthu i'r sector cyhoeddus yn sgorio fel tâl yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru. Byddai cyllid ar gyfer tai yn cystadlu â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, ac mae'n debygol y byddai hynny'n golygu llai o dai fforddiadwy newydd ac opsiynau cyfyngedig i Lywodraeth Cymru fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad cadarnhaol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt, gan gynnwys manteision sylweddol yn lleol o ran yr economi a chyflogaeth. Byddai hefyd yn creu ansicrwydd i randdeiliaid, gan gynnwys cyllidwyr sydd wedi gwneud ymrwymiadau tymor hir i ariannu sector landlordiaid cymdeithasol cofrestredig annibynnol.
8. Nod y Bil hwn yw diwygio neu ddileu'r elfennau hynny o reolaeth llywodraeth ganolog a llywodraeth leol a arweiniodd at benderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn Gorfforaethau Cyhoeddus Anariannol. Bydd hyn wedyn yn caniatáu i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ystyried ailddosbarthu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn Gorfforaethau Preifat Anariannol unwaith eto.

## **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

### **Trosolwg**

*Adran 1 – Trosolwg o'r Ddeddf hon*

9. Mae'r Rhan hon o'r Bil yn rhoi trosolwg o'i brif ddarpariaethau. Fe'u heglurir yn fanylach yn yr adrannau a ganlyn.

### **Dehongli**

*Adran 2 – Ystyr "Deddf 1996"*

10. Cyfeirir at Ddeddf Tai 1996 (p. 52) fel "Deddf 1996" drwy gydol y Bil.

### **Landlord cymdeithasol cofrestredig yn hysbysu am newidiadau cyfansoddiadol, etc.**

*Adran 3 - Newid rheolau neu erthyglau*

11. Mae adran 3 yn diwygio paragraff 9 a pharagraff 11 o Atodlen 1.

### Paragraff 9 o Atodlen 1

12. Mae paragraff 9 yn gymwys i landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Mae cymdeithasau cofrestredig wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

13. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 9, cyn ei ddiwygio:
  - Os yw landlord cymdeithasol cofrestredig yn newid ei enw neu gyfeiriad ei swyddfa gofrestredig, rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru.
  - Os yw'n newid unrhyw un neu ragor o'i reolau eraill, rhaid iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, neu ni fydd y newid yn cael effaith.
  - Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad drwy orchymyn, a rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig anfon copi at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
14. Gwneir diwygiadau i baragraff 9 o Atodlen 1 er mwyn cael gwared ar y gofyniad i landlord cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, ac yn lle hynny gosodir dyletswydd ar landlord cymdeithasol cofrestredig i hysbysu Gweinidogion Cymru.
15. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
  - Os yw landlord cymdeithasol cofrestredig yn newid unrhyw un neu ragor o'i reolau, gan gynnwys ei enw a chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig, nid oes angen iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt. I gael rhagor o wybodaeth am gyfarwyddydau hysbysu gweler paragraff 13A o Atodlen 1, a fewnosodir gan adran 6 o'r Bil.

#### Paragraff 11 o Atodlen 1

16. Mae paragraff 11 o Atodlen 1 yn gymwys i landlord cymdeithasol cofrestredig sydd wedi ei gofrestru yn gwmni (gan gynnwys cwmni sy'n elusen gofrestredig). Caiff cofrestryriad cwmnïau ei gofnodi gan y cofrestrydd cwmnïau. Rhaid i gwmni ffeilio Erthyglau Cymdeithasu gyda'r cofrestrydd cwmnïau. Dogfen yw hon sy'n nodi diben y cwmni yn ogystal â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ar ei aelodau. Rhaid i'r cwmni hefyd anfon copi o unrhyw benderfyniad sy'n addasu ei erthyglau at y cofrestrydd cwmnïau.
17. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 11, cyn ei ddiwygio:
  - Os yw landlord cymdeithasol cofrestredig sydd wedi ei gofrestru yn gwmni yn newid ei enw neu gyfeiriad ei swyddfa gofrestredig, rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru.
  - Os yw'n gwneud unrhyw addasiad arall i'w erthyglau y mae'n rhaid hysbysu'r cofrestrydd cwmnïau amdano, rhaid iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.
  - Nid yw'r newidiadau yn ddilys heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.
  - Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad drwy wneud gorchymyn, a rhaid anfon copi at y cofrestrydd cwmnïau ynghyd â chopi o'r penderfyniad sy'n gwneud yr addasiadau.
18. Gwneir diwygiadau i baragraff 11 o Atodlen 1 er mwyn cael gwared ar y gofyniad i landlord cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, ac yn lle hynny gosodir dyletswydd ar landlord cymdeithasol cofrestredig i hysbysu Gweinidogion Cymru.

19. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:

- Os yw landlord cymdeithasol cofrestredig sydd wedi ei gofrestru yn gwmni yn gwneud newidiadau i'w enw, cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig neu ei erthyglau cymdeithasu, nid oes angen iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, ond rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt. I gael rhagor o wybodaeth am gyfarwyddydau hysbysu gweler paragraff 13A o Atodlen 1, a fewnosodir gan adran 6 o'r Bil.

*Adran 4 – Cyfuno a newidiadau strwythurol eraill*

20. Mae adran 4 yn diwygio paragraffau 12 i 14 o Atodlen 1.

Paragraff 12 o Atodlen 1

21. Mae paragraff 12 o Atodlen 1 yn gymwys i landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.
22. Mae adran 109 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn caniatáu i gymdeithas gofrestredig basio penderfyniad arbennig i gyfuno â chymdeithas arall. Mae adran 110 o'r Ddeddf honno yn caniatáu i gymdeithas gofrestredig basio penderfyniad arbennig i drosglwyddo ymrwymiadau rhwng cymdeithasau ac mae adran 112 o'r Ddeddf honno yn caniatáu trosi cymdeithas gofrestredig yn gwmni cofrestredig. Rhaid anfon copi o'r penderfyniad at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
23. Gall cymdeithas hefyd basio penderfyniad arbennig i ddirwyn y gymdeithas i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986. Os yw cymdeithas yn gwneud hynny, rhaid iddi anfon copi o'r penderfyniad at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.
24. Gall cymdeithas sy'n solfent hefyd wneud cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol am gofrestru offeryn diddymu a fydd yn caniatáu iddi gael ei diddymu ac yn terfynu ei chofrestriad fel cymdeithas.
25. Dyma'r sefyllfa cyn y diwygiad:
- Rhaid i landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i benderfyniad i gyfuno â chymdeithas arall, i drosglwyddo ei ymrwymiadau i gymdeithas arall neu i'w drosi ei hun yn gwmni cofrestredig.
  - Mae'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru hefyd cyn i benderfyniad gael ei basio bod y landlord cymdeithasol cofrestredig yn cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986 neu os yw'r landlord cymdeithasol cofrestredig i gael ei ddiddymu drwy offeryn diddymu.
  - Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad drwy wneud gorchymyn ysgrifenedig. Os na chaiff copi o gydsyniad Gweinidogion Cymru i'r cyfuno, y trosglwyddo neu'r trosi ei anfon at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

- ynghyd â chopi o'r penderfyniad arbennig perthnasol, ni fydd yr Awdurdod yn cofrestru'r penderfyniad arbennig.
- Rhaid anfon copi o gydsyniad Gweinidogion Cymru at yr Awdurdod hefyd os yw cymdeithas wedi pasio penderfyniad arbennig y dylid ei dirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986. Nid yw'r penderfyniad yn cael unrhyw effaith fel arall.
  - Os yw'r gymdeithas i'w diddymu drwy offeryn diddymu, ni all yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol gofrestru'r offeryn, na pheri bod hysbysiad am y diddymiad yn cael ei hysbysebu, oni bai bod copi o gydsyniad Gweinidogion Cymru wedi dod i law ynghyd â'r offeryn.
26. Gwneir diwygiadau i baragraff 12 o Atodlen 1 er mwyn cael gwared ar y gofynion i landlord cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, ac yn lle hynny gosodir dyletswydd ar landlord cymdeithasol cofrestredig i hysbysu Gweinidogion Cymru.
27. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 12, ar ôl ei ddiwygio:
- Nid oes rhaid i landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru bellach i benderfyniad i gyfuno â chymdeithas arall, i drosglwyddo ei ymrwymiadau i gymdeithas arall neu i'w drosi ei hun yn gwmni cofrestredig. Rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt. I gael rhagor o wybodaeth am gyfarwyddydau hysbysu gweler paragraff 13A o Atodlen 1, a fewnosodir gan adran 6 o'r Bil.
  - Nid yw'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i benderfyniad gael ei basio bod y landlord cymdeithasol cofrestredig yn cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986 neu os yw'r landlord cymdeithasol cofrestredig i gael ei ddiddymu drwy offeryn diddymu. Rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt. I gael rhagor o wybodaeth am gyfarwyddydau hysbysu gweler paragraff 13A o Atodlen 1, a fewnosodir gan adran 6 o'r Bil.
- Paragraff 13 o Atodlen 1
28. Mae paragraff 13 yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gwmniau cofrestredig y mae'r cofrestrydd cwmniau wedi eu cofrestru fel landlord cofrestredig.
29. Mae adran 899 o Ddeddf Cwmniau 2006 yn caniatáu i gwmni wneud cais am orchymyn llys i wneud cyfaddawd neu drefniant â'i gredydwyr neu ei aelodau. Mae adran 900 o'r un Ddeddf yn caniatáu i'r cwmni wneud cais am orchymyn llys i drosglwyddo ymgynheriad neu eiddo at ddibenion atgyfansoddi neu gyfuno'r cwmni. Rhaid i'r cwmni anfon y copi swyddfa o'r gorchymyn at y cofrestrydd cwmniau.
30. Gall y cwmni basio penderfyniad hefyd o dan adran 115 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 i drosi'r cwmni yn gymdeithas gofrestredig, a rhaid iddo anfon copi o'r penderfyniad at y cofrestrydd cwmniau.

31. Gall cyfarwyddwr, gweinyddwr neu ddatodwr i'r cwmni hefyd wneud trefniant gwirfoddol â chredydwyr y cwmni o dan adran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986. Rhaid iaelodau a chredydwyr y cwmni gymeradwyo'r trefniant hwn.
32. Gall cwmni basio penderfyniad arbennig ei fod yn cael ei ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986 ac, yn unol ag adran 30 o Ddeddf Cwmnïau 2006, rhaid anfon copi o'r penderfyniad at y cofrestrydd cwmnïau.
33. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 13, cyn ei ddiwygio:
  - Rhaid i gwmni gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud cais am orchymyn llys o dan adran 899 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Rhaid anfon copi o'r cydsyniad hwn at y cofrestrydd cwmnïau ynghyd â'r copi swyddfa o'r gorchymyn. Nid yw'r gorchymyn yn cael effaith fel arall.
  - Rhaid i gwmni gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud cais am orchymyn llys o dan adran 900 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Rhaid anfon copi o'r cydsyniad hwn at y cofrestrydd cwmnïau ynghyd â'r copi swyddfa o'r gorchymyn. Nid yw'r gorchymyn yn cael effaith fel arall.
  - Os yw cwmni'n pasio penderfyniad o dan adran 115 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 i drosi'r cwmni yn gymdeithas gofrestredig, rhaid iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru a rhaid anfon copi o'r cydsyniad hwnnw at y cofrestrydd cwmnïau ynghyd â chopi o'r penderfyniad. Nid yw'r cofrestrydd cwmnïau yn gallu cofrestru'r penderfyniad heb gopi o'r cydsyniad.
  - Pan fo cyfarwyddwr, gweinyddwr neu ddatodwr i'r cwmni yn bwriadu gwneud trefniant gwirfoddol â chredydwyr y cwmni o dan adran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986, ni fydd y trefniant yn cael effaith oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi eu cydsyniad.
  - Rhaid i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad cyn i gwmni basio penderfyniad arbennig ei fod i'w ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986. Rhaid anfon copi o'r cydsyniad at y cofrestrydd cwmnïau ynghyd â chopi o'r penderfyniad. Os na cheir cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw ac nad anfonir copi o'r cydsyniad ynghyd â'r penderfyniad, ni fydd y penderfyniad yn cael unrhyw effaith.
  - Ym mhob un o'r achosion hyn, mae Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad drwy wneud gorchymyn ysgrifenedig.
34. Gwneir diwygiadau i baragraff 13 o Atodlen 1 er mwyn cael gwared ar y gofynion i landlord cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, ac yn lle hynny gosodir dyletswydd ar landlord cymdeithasol cofrestredig i hysbysu Gweinidogion Cymru. Ceir gwared ar gyfyngiadau ar effeithiolrwydd unrhyw orchymyn neu benderfyniad nad yw wedi cael cydsyniad Gweinidogion Cymru.
35. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 13, ar ôl ei ddiwygio:
  - Nid oes angen i gwmni gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud cais am orchymyn llys o dan adran 899 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ond rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

- Nid oes angen i gwmni gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud cais am orchymyn llys o dan adran 900 o Ddeddf Cwmniâu 2006, ond rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt.
- Os yw cwmni'n pasio penderfyniad o dan adran 115 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 i drosi'r cwmni yn gymdeithas gofrestredig, nid oes angen iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ond rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt.
- Nid yw'n ofynnol bellach cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i unrhyw drefniant gwirfoddol o dan Ran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986 mewn perthynas â chwmni, ond rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt. Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi eu cydsyniad cyn i gwmni basio penderfyniad arbennig ei fod i'w ddirwyn i ben yn wirfoddol o dan Ddeddf Ansolfedd 1986. Rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt.
- I gael rhagor o wybodaeth am gyfarwyddydau hysbysu gweler paragraff 13A o Atodlen 1, a fewnosodir gan adran 6 o'r Bil.

#### Paragraff 14 o Atodlen 1

36. Mae adran 4 hefyd yn cael gwared ar baragraff 14 o Atodlen 1.
37. Mae'r darpariaethau dirwyn i ben yn Neddf Ansolfedd 1986 yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gwmniâu (gan gynnwys cwmniâu sy'n elusennau cofrestredig) ac, yn unol ag adran 123 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, yn gymdeithasau cofrestredig. Mae paragraff 14 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno deiseb i ddirwyn i ben landlordiaid cymdeithasol cofrestredig y mae darpariaethau dirwyn i ben Deddf Ansolfedd 1986 yn gymwys iddynt, os ydynt naill ai'n methu â chyflawni eu dibenion neu eu hamcanion yn briodol, neu'n analluog i dalu eu dyledion.
38. Mae'r paragraff hwn yn cael ei ddiddymu er mwyn cael gwared ar bŵer Gweinidogion Cymru i gyflwyno deiseb i ddirwyn i ben o dan yr amgylchiadau hyn.

#### *Adran 5 – Cyfarwyddydau ynghylch hysbysiadau sydd i'w rhoi i Weinidogion Cymru*

39. Mae adran 5 yn ychwanegu paragraff 13A at Atodlen 1.
40. Yn adrannau 3 a 4 o'r Bil, gosodir dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i hysbysu Gweinidogion Cymru am newidiadau penodol. Mae'r paragraff 13A ychwanegol hwn yn caniatâu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau sy'n pennu sut y byddant yn cael eu hysbysu a beth a gynhwysir mewn hysbysiad, ac yn gosod terfyn amser ar gyfer hysbysiadau. Mae hefyd yn galluogi iddynt amrywio'r gofynion hyn gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Gall cyfarwyddydd fod yn gymwys i bob landlord cymdeithasol cofrestredig neu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig penodol, neu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ddisgrifiad penodol, a chaiff

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

fod yn gymwys i bob hysbysiad, i hysbysiadau o ddisgrifiad penodol neu o dan amgylchiadau penodol.

41. Gall cyfarwyddyd hefyd hepgor gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru a chaiff amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd blaenorol.
42. Rhaid i landlord cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio â chyfarwyddyd sy'n gymwys iddo.

**Pwerau sy'n arferadwy mewn cysylltiad â swyddogion a rheolaeth landlord cymdeithasol cofrestredig**

*Trosolwg*

43. Mae'r trothwy presennol ar gyfer ymyrraeth gan Weinidogion Cymru yn amrywio gan ddibynnu ar y ddarpariaeth berthnasol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, ni ellir cymryd camau ymyrraeth oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion y landlord cymdeithasol cofrestredig. Er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, mae'r trothwy ar gyfer ymyrryd yn cael ei newid i sefyllfa pan fo landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano.
44. Bydd y trothwy newydd hwn ar gyfer ymyrraeth, sef methiant i gydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, ("failure to comply with a requirement imposed by or under an enactment"), yn cynnwys torri Deddfau'r DU, Deddfau neu Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth arall, yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddyddau neu safonau a wnaed o dan ddeddfiad ac y mae'n ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio â hwy. Gan y bydd y trothwy newydd yn cynnwys torri safonau a wnaed o dan adran 33A o Ddeddf 1996, lle ceir seiliau ymyrryd ar wahân ar hyn o bryd ar sail torri safon, mae'r rhain wedi eu disodli, yn gyffredinol, gan y trothwy newydd.
45. Mae adran 33A o Ddeddf 1996 yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod safonau perfformiad y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i'w bodloni mewn cysylltiad â'u swyddogaethau sy'n ymwneud â darparu tai, a materion sy'n ymwneud â'u llywodraethu a rheolaeth ariannol.

*Adran 6 – Diswyddo neu benodi swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig*

46. Mae adran 6 yn diwygio paragraffau 4 a 6 i 8 o Atodlen 1.

Paragraff 4 o Atodlen 1

47. Dyma'r sefyllfa cyn y diwygiad.
  - Gall Gweinidogion Cymru ddiswyddo swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig o dan amgylchiadau amrywiol.
  - Nodir rhestr o'r amgylchiadau hyn ym mharagraff 4(2) o Atodlen 1 sy'n cynnwys, ym mharagraff 4(2)(g), pan na ellir dod o hyd i swyddog, neu nad

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

yw'n gweithredu, a bod ei absenoldeb neu ei fethiant i weithredu yn llesteirio rheoli materion y landlord cymdeithasol cofrestredig yn briodol.

48. Gwneir diwygiadau i baragraff 4 o Atodlen 1 i ddiwygio'r trothwy lle caiff Gweinidogion Cymru ddiswyddo swyddog o dan baragraff 4(2)(g).
49. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
  - Gall Gweinidogion Cymru ddiswyddo swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig o dan amgylchiadau amrywiol.
  - Nodir rhestr o'r amgylchiadau hyn ym Mharagraff 4(2) o Atodlen 1. Nid oes newid i'r rhestr, ac eithrio i baragraff 4(2)(g), sydd bellach yn caniatáu i swyddog gael ei ddiswyddo pan na ellir dod o hyd i'r swyddog neu nad yw'n gweithredu, a bod ei absenoldeb neu ei fethiant i weithredu yn llesteirio cydymffurfedd y landlord cymdeithasol cofrestredig â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano.

#### Paragraffau 6 i 8 o Atodlen 1

50. Mae paragraffau 6, 7 ac 8 o Atodlen 1 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru benodi personau i fod yn swyddog landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n elusennau cofrestredig, yn gwmniäu neu'n gymdeithasau cofrestredig, yn y drefn honno.
51. Cyn y diwygiadau hyn, gall Gweinidogion Cymru benodi person i fod yn swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n elusen gofrestredig, yn gwmni neu'n gymdeithas gofrestredig yn lle person y maent wedi ei ddiswyddo, neu os na cheir unrhyw swyddogion, neu lle bo Gweinidogion Cymru o'r farn bod cael swyddog ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn rheoli materion y gymdeithas yn briodol.
52. Gwneir diwygiadau i baragraffau 6, 7 ac 8 o Atodlen 1 er mwyn diwygio'r trothwy mewn perthynas ag un o seiliau Gweinidogion Cymru dros benodi person i fod yn swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig.
53. Ar ôl y diwygiadau, gall Gweinidogion Cymru benodi person i fod yn swyddog landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n elusen gofrestredig, yn gwmni neu'n gymdeithas gofrestredig yn lle person y maent wedi ei ddiswyddo, neu lle na cheir unrhyw swyddogion, neu lle bo Gweinidogion Cymru o'r farn bod y penodiad yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y landlord cymdeithasol cofrestredig yn cydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano.

#### *Adran 7 – Tendro neu drosglwyddo swyddogaethau rheoli landlord cymdeithasol cofrestredig*

54. Mae adran 7 yn diwygio paragraffau 15B a 15D o Atodlen 1. Mae'n gymwys i bob landlord cymdeithasol cofrestredig.

#### Paragraff 15B o Atodlen 1

55. Dyma'r sefyllfa o ran paragraff 15B, cyn ei ddiwygio:
  - Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â bodloni'r safon perfformiad a osodir o dan Adran

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

33A o Ddeddf 1996 neu bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion y landlord cymdeithasol cofrestredig, gallant ei gwneud yn ofynnol i'r landlord cymdeithasol cofrestredig dendro ei holl swyddogaethau rheoli, neu rai ohonynt.

- Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r camymddwyn neu'r camreoli yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn Lloegr.
56. Gwneir diwygiadau i baragraff 15B o Atodlen 1 i ddiwygio'r trothwy lle gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig dendro ei swyddogaethau rheoli.
57. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
- Os yw landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r landlord cymdeithasol cofrestredig dendro ei holl swyddogaethau rheoli, neu rai ohonynt.
  - Nid yw'r paragraff yn gymwys pan fo'r methiant i gydymffurfio yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn Lloegr.
- Paragraff 15D o Atodlen 1
58. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 15D, cyn ei ddiwygio:
- Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, o ganlyniad i ymchwiliad neu archwiliad (o dan baragraff 20 neu 22 o Atodlen 1), bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion landlord cymdeithasol cofrestredig, neu y byddai trosglwyddo swyddogaethau rheoli penodol landlord cymdeithasol cofrestredig yn debygol o wella'r modd y rheolir rhai o'i faterion neu'r cyfan ohonynt, gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r landlord cymdeithasol cofrestredig drosglwyddo swyddogaethau rheoli i berson a bennir ganddynt.
  - Nid yw'r paragraff yn gymwys pan fo'r camymddwyn neu'r camreoli yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn Lloegr, neu pan fyddai'r trosglwyddiad yn debygol o wella'r modd y mae'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn rheoli ei faterion yn unig mewn perthynas â darparu tai yn Lloegr.
59. Gwneir diwygiadau i baragraff 15D o Atodlen 1 i ddiwygio'r trothwy lle gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig drosglwyddo ei swyddogaethau rheoli.
60. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
- Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, o ganlyniad i ymchwiliad neu archwiliad (o dan baragraff 20 neu 22 o Atodlen 1), bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r landlord cymdeithasol cofrestredig drosglwyddo swyddogaethau rheoli i berson a bennir ganddynt.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

- Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r methiant yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn Lloegr.

*Adran 8 - Penodi rheolwr ar landlord cymdeithasol cofrestredig*

61. Mae adran 8 yn diwygio paragraff 15F o Atodlen 1.
62. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 15F, cyn ei ddiwygio:
  - Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â bodloni safon o dan adran 33A o Ddeddf 1996 neu fod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion y landlord cymdeithasol cofrestredig, gall Gweinidogion Cymru benodi unigolyn i fod yn rheolwr ar y landlord cymdeithasol cofrestredig, neu ei gwneud yn ofynnol i'r landlord cymdeithasol cofrestredig benodi unigolyn i fod yn rheolwr.
  - Caiff y penodiad neu'r gofyniad ymwneud â rheoli'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn gyffredinol, neu â materion penodedig.
  - Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r camymddwyn neu'r camreoli yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn Lloegr.
63. Gwneir diwygiadau i baragraff 15F o Atodlen 1 i ddiwygio'r trothwy lle gall Gweinidogion Cymru benodi rheolwr ar landlord cymdeithasol cofrestredig.
64. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
  - Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, gall Gweinidogion Cymru benodi unigolyn i fod yn rheolwr ar y landlord cymdeithasol cofrestredig, neu ei gwneud yn ofynnol i'r landlord cymdeithasol cofrestredig benodi unigolyn i fod yn rheolwr.
  - Caiff y penodiad neu'r gofyniad ymwneud â rheoli'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn gyffredinol, neu â materion penodedig.
  - Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r methiant yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn Lloegr.

*Adran 9 – Cyfuno y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi effaith iddo*

65. Mae adran 9 yn diwygio paragraff 15H o Atodlen 1. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithasau cofrestredig.
66. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 15H, cyn ei ddiwygio:
  - Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, o ganlyniad i ymchwiliad neu archwiliad (o dan baragraff 20 neu 22 o Atodlen 1), bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig, neu y byddai ei faterion yn gwella pe bai'r landlord yn cael ei gyfuno â chymdeithas gofrestredig arall, caiff Gweinidogion Cymru wneud, a gweithredu ar ran y gymdeithas, offeryn sy'n darparu ar gyfer ei gyfuno â chymdeithas gofrestredig arall.
  - Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r camymddwyn neu'r camreoli yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

Lloegr, na phan fyddai'r cyfuno yn gwella'r modd y mae'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn rheoli ei faterion yn unig mewn perthynas â darparu tai yn Lloegr.

67. Gwneir diwygiadau i baragraff 15H o Atodlen 1 i ddiwygio'r trothwy lle gall Gweinidogion Cymru gyfuno landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithasau cofrestredig.
68. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
  - Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, o ganlyniad i ymchwiliad neu archwiliad (o dan baragraff 20 neu 22 o Atodlen 1), bod landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gymdeithas gofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, gall Gweinidogion Cymru wneud, a gweithredu ar ran y gymdeithas, offeryn sy'n darparu ar gyfer ei chyfuno â chymdeithas gofrestredig arall.
  - Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r methiant yn ymwneud yn unig â'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn darparu tai yn Lloegr.

### **Pwerau sy'n arferadwy mewn cysylltiad ag ymchwiliadau etc.**

*Adran 10 - Ymchwiliadau ac adroddiadau*

69. Mae adran 10 yn diwygio paragraffau 20, 23, 24 a 27 o Atodlen 1.

### ***Trosolwg***

70. Mae paragraff 20 o Atodlen 1 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ymchwiliad i faterion landlord cymdeithasol cofrestredig os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru y gallai camymddwyn neu gamreoli fod wedi digwydd. Mae paragraff 22 o Atodlen 1 i Ddeddf 1996 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, at ddibenion ymchwiliad o'r fath, i gofnodion a mantolen y landlord cymdeithasol cofrestredig o dan sylw, neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill a bennir gan Weinidogion Cymru, gael eu harchwilio gan archwilydd cymwysedig a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 20(5) yn caniatâu i'r person neu'r personau sy'n cynnal yr ymchwiliad wneud un adroddiad interim neu ragor, yn ystod yr ymchwiliad, ar faterion y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol.

### Paragraff 20 o Atodlen 1

71. Cyn y diwygiad, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo ymchwiliad i faterion landlord cymdeithasol cofrestredig os yw'n ymddangos iddynt y gallai camymddwyn neu gamreoli fod wedi digwydd.
72. Gwneir diwygiadau i baragraff 20 i ddiwygio'r trothwy lle gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo ymchwiliad.
73. Ar ôl y diwygiad, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo ymchwiliad i faterion landlord cymdeithasol cofrestredig os yw'n ymddangos iddynt (Gweinidogion

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

Cymru) y gallai'r landlord cymdeithasol cofrestredig fod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano.

### Paragraff 23 o Atodlen 1

74. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 23, cyn ei ddiwygio:

- Gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan y paragraff hwn pan fo ymchwiliad wedi ei gyfarwyddo o dan baragraff 20 a bod gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion y landlord cymdeithasol cofrestredig, a bod angen cymryd camau ar unwaith i warchod buddiannau tenantiaid y landlord cymdeithasol cofrestredig neu i warchod asedau'r landlord cymdeithasol cofrestredig.
- Gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan baragraff 23 hefyd pan fo adroddiad interim wedi ei wneud o dan baragraff 20(5) a bod Gweinidogion Cymru, o ganlyniad iddo, wedi eu bodloni bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion landlord cymdeithasol cofrestredig.
- Gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn atal dros dro unrhyw swyddog, cyflogai neu asiant i'r landlord cymdeithasol cofrestredig y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru y bu'n gyfrifol am y camymddwyn neu'r camreoli, neu'n ymwybodol ohono, neu ei fod wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso drwy ei ymddygiad.
- Gallant hefyd wneud gorchymyn yn cyfarwyddo unrhyw fanc neu berson arall sy'n dal arian neu warannau ar ran y landlord cymdeithasol cofrestredig i beidio ag ymadael â'r arian neu'r gwarannau heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, a gallant wneud gorchymyn yn cyfyngu ar y trafodiadau y caniateir i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ymrwymo iddynt, neu natur neu swm y taliadau y caniateir iddo eu gwneud, heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

75. Gwneir diwygiadau i baragraff 23 o Atodlen 1 i ddiwygio'r trothwy lle gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymynion o dan y paragraff hwn.

76. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 23, ar ôl ei ddiwygio:

- Gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan y paragraff hwn pan fo ymchwiliad wedi ei gyfarwyddo o dan baragraff 20 a bod gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, a bod angen cymryd camau ar unwaith i warchod buddiannau tenantiaid y landlord cymdeithasol cofrestredig neu i warchod asedau'r landlord cymdeithasol cofrestredig.
- Gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan baragraff 23 hefyd pan fo adroddiad interim wedi ei wneud o dan baragraff 20(5) a bod Gweinidogion Cymru, o ganlyniad iddo, wedi eu bodloni bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano.
- Nid oes newid i'r gorchymynion y caniateir eu gwneud.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

#### Paragraff 24 o Atodlen 1

77. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 24, cyn ei ddiwygio:
- Gall Gweinidogion Cymru wneud un o'r gorchmynion a ganlyn pan fônt wedi eu bodloni, yn dilyn ymchwiliad neu archwiliad (o dan baragraff 20 neu baragraff 22), bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd o ran materion landlord cymdeithasol cofrestredig.
  - Gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn atal dros dro unrhyw swyddog, cyflogai neu asiant i'r landlord cymdeithasol cofrestredig y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru y bu'n gyfrifol am y camymddwyn neu'r camreoli, neu'n ymwybodol ohono, neu ei fod wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso drwy ei ymddygiad.
  - Gallant hefyd wneud gorchymyn yn cyfarwyddo unrhyw fanc neu berson arall sy'n dal arian neu warannau ar ran y landlord cymdeithasol cofrestredig i beidio ag ymadael â'r arian neu'r gwarannau heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, a gallant wneud gorchymyn yn cyfyngu ar y trafodiadau y caniateir i'r landlord cymdeithasol cofrestredig ymrwymo iddynt, neu natur neu swm y taliadau y caniateir iddo eu gwneud, heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
78. Gwneir diwygiadau i baragraff 24 o Atodlen 1 i ddiwygio'r trothwy lle gall Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion o dan y paragraff hwn.
79. Dyma'r sefyllfa o dan baragraff 24, ar ôl ei ddiwygio:
- Mae'r paragraff hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn pan fônt wedi eu bodloni, yn dilyn ymchwiliad neu archwiliad (o dan baragraff 20 neu 22), bod landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano.
  - Nid oes newid i'r gorchmynion y caniateir eu gwneud.

#### Paragraff 27 o Atodlen 1

80. Cyn y diwygiad, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo landlord cymdeithasol cofrestredig i wneud trosglwyddiad tir pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, o ganlyniad i ymchwiliad neu archwiliad (o dan baragraff 20 neu 22), bod camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd wrth weinyddu landlord cymdeithasol cofrestredig, neu y byddai'r modd y rheolir ei dir yn gwella pe bai'r tir yn cael ei drosglwyddo.
81. Gwneir diwygiad i baragraff 27 i ddiwygio'r trothwy lle caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo landlord cymdeithasol cofrestredig i wneud trosglwyddiad tir.
82. Ar ôl y diwygiad, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo landlord cymdeithasol cofrestredig i wneud trosglwyddiad tir pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, o ganlyniad i ymchwiliad o dan baragraff 20 neu archwiliad o dan baragraff 22, ei fod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, ac y byddai'r modd y rheolir ei dir yn gwella pe bai'r tir yn cael ei drosglwyddo.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

## **Hysbysiadau Gorfodi a Chosbau**

*Adran 11 - Hysbysiadau gorfodi*

83. Mae adran 11 yn diwygio adran 50C o Ddeddf Tai 1996.
84. Mae'r adran hon o Ddeddf 1996 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi hysbysiad gorfodi i landlord cymdeithasol cofrestredig.
85. Dyma'r sefyllfa cyn y diwygiad:
  - Gall Gweinidogion Cymru roi hysbysiad gorfodi i landlord cymdeithasol cofrestredig os ydynt wedi eu bodloni bod unrhyw un neu ragor o 9 achos a restrir yn gymwys.
  - Mae'r rhestr yn cynnwys achos 2, *where there has been misconduct or mismanagement in the affairs of the registered social landlord.*
  - Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni hefyd fod rhoi hysbysiad gorfodi yn briodol (pa un a yw hynny'n debygol o fod yn ddigonol ohono'i hun neu o arwain at gamau pellach).
86. Gwneir diwygiadau i adran 50C er mwyn diwygio ar ba seiliau y caniateir rhoi hysbysiad gorfodi yn achos 2. Ychwanegir is-adran (10) at adran 50C hefyd er mwyn sicrhau, pan fo achos arall yn gymwys, y dylid defnyddio'r seiliau a bennir yn yr achos hwnnw fel y sail ar gyfer yr hysbysiad gorfodi. Er enghrafft, os cafodd safon a ddyroddwyd o dan adran 33A o Ddeddf 1996 ei thorri, achos 1 fyddai'r sail briodol ar gyfer yr hysbysiad gorfodi.
87. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
  - Gall Gweinidogion Cymru roi hysbysiad gorfodi i landlord cymdeithasol cofrestredig os ydynt wedi eu bodloni bod unrhyw un neu ragor o'r 9 achos a restrir yn gymwys.
  - Caiff achos 2 ei ddiwygio. Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, a hefyd nad yw'r methiant yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r 8 achos arall.
  - Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni hefyd fod rhoi hysbysiad gorfodi yn briodol (pa un a yw hynny'n debygol o fod yn ddigonol ohono'i hun neu o arwain at gamau pellach).

*Adran 12 – Gofyniad i dalu cosb*

88. Mae adran 12 yn diwygio adran 50H o Ddeddf 1996.
89. Mae'r adran hon o Ddeddf 1996 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig dalu cosb.
90. Dyma'r sefyllfa cyn y diwygiad:
  - Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig dalu cosb os ydynt wedi eu bodloni bod unrhyw un neu ragor o 5 achos a restrir yn gymwys.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

- Mae'r rhestr yn cynnwys achos 2, *where there has been misconduct or mismanagement in the affairs of the registered social landlord*.
  - Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni hefyd bod gosod cosb yn briodol (pa un a yw hynny'n rhan o ymateb sy'n cynnwys camau eraill ai peidio).
91. Gwneir diwygiadau i adran 50H er mwyn diwygio ar ba seiliau y caniateir gosod cosb yn achos 2. Ychwanegir is-adran (6A) at adran 50H hefyd er mwyn sicrhau, pan fo achos arall yn gymwys, y dylid defnyddio'r seiliau a bennir yn yr achos hwnnw fel y sail ar gyfer y gosb. Er enghraift, os cafodd safon a ddyroddwyd o dan adran 33A o Ddeddf 1996 ei thorri, achos 1 fyddai'r sail briodol ar gyfer y gosb.
92. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
  - Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig dalu cosb os ydynt wedi eu bodloni bod unrhyw un neu ragor o'r 5 achos a restrir yn gymwys.
  - Mae achos 2 wedi ei ddiwygio, a rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y landlord cymdeithasol cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan ddeddfiad, neu oddi tano, a hefyd nad yw'r methiant yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r 5 achos arall.
  - Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni hefyd fod gosod cosb yn briodol (pa un a yw hynny'n rhan o ymateb sy'n cynnwys camau eraill ai peidio).

## **Gwareidiadau tir**

*Trosolwg*

93. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i warediadau tir o dan adran 9 o Ddeddf 1996, adran 171D o Ddeddf Tai 1985, ac adrannau 81 a 133 o Ddeddf Tai 1988. Mae adrannau 13 a 14 o'r Bil yn cael gwaredi ar y gofynion hyn i gael cydsyniad, a gosodir dyletswydd newydd i hysbysu Gweinidogion Cymru.
94. Bydd adran 9 o Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 14 o'r Bil) yn gymwys i unrhyw warediad gan landlord cymdeithasol cofrestredig, gan olygu y bydd rhaid i'r landlord cymdeithasol cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru am warediad a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyau hysbysu a roddir ganddynt.

### *Adran 13: Gwaredu tir: cydsyniad*

95. Mae adran 13 yn diwygio adran 171D o Ddeddf Tai 1985 (p. 68) ac yn diddymu adran 81, ac yn diwygio adran 133, o Ddeddf Tai 1988 (p. 50).

### Adran 171D o Ddeddf Tai 1985

96. Mae adran 171D o Ddeddf Tai 1985 yn ymwneud â'r hawl i brynu a gadwyd. Mae'n bosibl bod tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a oedd yn denantiaid diogel awdurdod lleol, ac a ddaeth yn denantiaid sicr am i berchnogaeth eu cartrefi

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

gael ei throsglwyddo i landlord cymdeithasol cofrestredig, yn meddu ar yr hyn a elwir yn hawl i brynu a gadwyd.

97. Dyma'r sefyllfa o dan adran 171D o Ddeddf Tai 1985 cyn ei diwygio:
- Mae is-adran (2) o adran 171D yn datgan ei bod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw landlord tŷ annedd sy'n ddarostyngedig i'r hawl i brynu neu'r hawl i brynu a gadwyd yn dymuno gwaredu llai na buddiant cyfan y landlord fel landlord y tŷ annedd, neu ran ohono, oni bai bod y gwarediad i'r person neu'r personau sydd â'r hawl i brynu neu'r hawl i brynu a gadwyd.
98. Diwygir adran 171D o Ddeddf Tai 1985 i gael gwared ar y gofyniad i landlord cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwarediad.

#### Adran 81 o Ddeddf Tai 1988

99. Mae adran 81 o Ddeddf Tai 1988 yn ymwneud â gwarediadau dilynol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig pan oedd y gwarediad gwreiddiol yn warediad gan ymddiriedolaeth gweithredu tai.
100. Dyma'r sefyllfa o dan adran 81 o Ddeddf Tai 1988 cyn y diwygiad. Os yw ymddiriedolaeth gweithredu tai yn dymuno gwaredu tŷ sy'n ddarostyngedig i denantiaeth ddiogel neu denantiaeth ragarweiniol (sef tenantiaeth am gyfnod prawf cyn i'r tenant gael tenantiaeth ddiogel o bosibl) i landlord cymdeithasol cofrestredig, rhaid i'r trawsgludiad gynnwys gofyniad y bydd yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru pe bai'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn dymuno gwaredu'r tŷ ar unrhyw adeg.
101. Bydd adran 81 yn cael ei diddymu ac effaith hynny yw na fydd yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn iddynt waredu'r tŷ.

#### Adran 133 o Ddeddf Tai 1988

102. Mae adran 133 o Ddeddf Tai 1988 yn ymwneud â gwarediadau dilynol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig pan oedd y gwarediad gwreiddiol yn warediad gan awdurdod lleol.
103. Dyma'r sefyllfa o dan adran 133 o Ddeddf Tai 1988 cyn y diwygiad. Pan fo landlord cymdeithasol cofrestredig wedi caffael tir neu dŷ gan awdurdod lleol o dan adran 32 neu 43 o Ddeddf Tai 1985, ac nad yw'r cydsyniad sy'n ymwneud â'r gwarediad gwreiddiol yn darparu fel arall, rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i waredu'r tir neu'r tŷ hwnnw. Ceir nifer o esemtiau, megis pan fo'r tŷ'n cael ei waredu i berson o dan yr hawl i brynu.
104. Gwneir diwygiadau i adran 133 o Ddeddf Tai 1988 i gael gwared ar y gofyniad i landlord cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwarediad.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

*Adran 14 – Gwaredu tir: hysbysu*

105. Mae adran 14 yn diwygio adran 9 o Ddeddf 1996 sy'n ymwneud â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gwaredu tir.
106. Dyma'r sefyllfa o dan adran 9 o Ddeddf 1996 cyn y diwygiad:
  - O dan adran 8, gall landlord cymdeithasol cofrestredig waredu tir y mae'n ei ddal yn y modd y mae'n meddwel ei fod yn briodol. Ond os yw landlord cymdeithasol cofrestredig yn dymuno gwaredu tir, mae angen iddo gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.
  - Gall Gweinidogion Cymru roi eu cydsyniad mewn perthynas â phob landlord cymdeithasol cofrestredig, neu i landlord cymdeithasol cofrestredig penodol, neu i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o ddisgrifiad penodol, ac mewn perthynas â thir penodol, neu dir o ddisgrifiad penodol.
  - Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad, maent yn gwneud hynny drwy wneud gorchymyn.
107. Gwneir diwygiadau i adran 9 o Ddeddf 1996 er mwyn cael gwaredu ar y gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru wrth waredu tir, ac yn lle hynny gosodir gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw warediad o'r fath. Dyma'r sefyllfa ar ôl y diwygiad:
  - O dan adran 8, gall landlord cymdeithasol cofrestredig waredu tir y mae'n ei ddal yn y modd y mae'n meddwel ei fod yn briodol. Ond os yw landlord cymdeithasol cofrestredig yn dymuno gwaredu tir, rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru a chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau hysbysu a roddir ganddynt.
  - Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau ynghylch sut y dylid eu hysbysu. Caiff cyfarwyddyd ymwneud â sut a phryd y mae'n rhaid rhoi hysbysiad, neu beth y mae'n rhaid iddo ei gynnwys, neu caiff bennu terfyn amser ar gyfer rhoi hysbysiad.
  - Gall Gweinidogion Cymru bennu pa landlordiaid cymdeithasol cofrestredig y mae cyfarwyddyd yn gymwys iddynt a pha warediadau neu fathau o warediadau y mae'n gymwys iddynt. Gall cyfarwyddyd hefyd hepgor gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru neu ddirymu neu amrywio cyfarwyddyd blaenorol.
  - Rhaid i landlord cymdeithasol cofrestredig gydymffurfio â chyfarwyddyd sy'n gymwys iddo.

*Adran 15 – Cronfa enillion o warediadau*

108. Mae adran 153 yn hepgor adrannau 24 i 26 o Ddeddf Tai 1996.
109. Dyma'r sefyllfa o dan adrannau 24 i 26, cyn iddynt gael eu hepgor. Mae'n ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddangos enillion net o warediadau ar wahân yn eu cyfrifon. Gall Gweinidogion Cymru benderfynu ar yr hyn a ddiffinnir fel yr enillion net o warediadau, ond yn fras maent yn cynnwys yr enillion gwerthiant net a dderbyniwyd gan landlord cymdeithasol cofrestredig mewn cysylltiad ag unrhyw warediad tir i denant, a nifer o grantiau a dalwyd iddo gan Lywodraeth Cymru. Ni

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

ellid ond defnyddio'r cronfeydd yn y gronfa enillion o warediadau yn y modd a bennir gan Weinidogion Cymru.

110. Caiff adrannau 24 i 26 eu diddymu er mwyn cael gwared ar y gofyniad i ddangos enillion o warediadau ar wahân mewn cyfrifon, ac i gael gwared ar allu Gweinidogion Cymru i benderfynu sut y dylid defnyddio enillion o'r fath.

### **Aelodaeth o fwrdd a hawliau pleidleisio**

*Adran 16 – Cyfyngiad ar aelodaeth awdurdodau lleol o fwrdd a hawliau pleidleisio*

111. Mae Atodlen 1 yn mewnosod Pennod 1A newydd i Ran 1 o Ddeddf 1996 (sector rhentu cymdeithasol a reoleiddir gan Weinidogion Cymru), er mwyn gosod cyfyngiadau ar y rheolaeth y caniateir i awdurdodau lleol ei chael ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Ceir nodiadau pellach ym mharagraffau 115-126 isod.

*Adran 17 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol*

112. Mae Atodlen 2 yn nodi'r diwygiadau y bydd angen eu gwneud i ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r darpariaethau eraill a nodir yn y Bil hwn.

*Adran 18 – Pŵer i wneud diwygiadau pellach*

113. Mae Adran 18 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil hwn, neu oddi tano.

*Adran 19 - Dod i rym*

114. Bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym yn unol â gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru, ac eithrio adrannau 19 ac 20 sy'n dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

### **Atodlen 1**

115. Cyflwynir Atodlen 1 gan adran 16.

116. Mae'r Atodlen hon yn cyflwyno Pennod 1A newydd i Ran 1 o Ddeddf 1996. Mae pennod 1A yn cynnwys adrannau 7A i 7J.

Cyn i Bennod 1A ddod i rym, roedd gan rai awdurdodau lleol drefniadau contractiol â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, neu roedd darpariaethau yng nghyfansoddiadau neu reolau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a oedd yn neilltuo lleoedd iddynt ar fyrrdau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac, mewn rhai achosion, yn rhoi hawliau pleidleisio fel aelod a hawliau eraill iddynt, megis yr hawl i fetu dros faterion penodol. Mae'r Bennod hon yn cyfyngu ar ddylanwad awdurdod lleol dros fwrdd landlord cymdeithasol cofrestredig, ac yn cael gwared ar ei hawliau pleidleisio fel aelod.

117. Mae adran 7A yn diffinio'r termau allweddol at ddibenion Pennod 1A.

118. O dan adran 7B, ni chaniateir gwneud unrhyw benodiad i fwrdd landlord cymdeithasol cofrestredig a fyddai'n golygu bod dros 24% o aelodau bwrdd y landlord cymdeithasol cofrestredig yn benodeion llywodraeth leol. Nid yw unrhyw benodiad a wneir i'r bwrdd a fyddai, oni bai am adran 7B, yn golygu bod dros 24% o aelodau'r bwrdd yn benodeion llywodraeth leol yn cael unrhyw effaith.
119. Gwneir darpariaeth yn ogystal sy'n golygu, i'r graddau bod unrhyw ddarpariaeth yng nghyfansoddiad neu reolau landlord cymdeithasol cofrestredig yn gwrthdaro â'r gofyniad hwn, na fydd y ddarpariaeth honno yn cael unrhyw effaith. Gweler hefyd adran 71 mewn cysylltiad â darpariaethau mewn cytundebau nad ydynt i gael unrhyw effaith.

Mae adran 7C yn nodi'r weithdrefn y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol i'w dilyn er mwyn lleihau nifer y penodeion awdurdod lleol ar fwrdd landlord cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau nad yw dros 24% o aelodau bwrdd y landlord cymdeithasol cofrestredig yn benodeion awdurdod lleol (y trothwy o 24%). Os oes angen i landlord cymdeithasol cofrestredig ddiswyddo aelod o fwrdd, mae ganddo bedwar mis i wneud hynny o'r dyddiad y mae adran 7C yn dod i rym, ond ni all ddiswyddo aelod hyd ddu fis ar ôl i'r adran hon ddod i rym, yn ddarostyngedig i bŵer awdurdod lleol i bennu pa un neu ragor o'i benodeion sydd i'w diswyddo o dan adran 7C.

120. Gall awdurdod lleol enwebu pa rai o blith y penodeion awdurdod lleol sydd i'w diswyddo er mwyn cydymffurfio â'r trothwy o 24%, ond rhaid iddynt wneud hynny o fewn dau fis i adran 7C ddod i rym. Os yw awdurdod lleol yn enwebu penodeion i gael eu diswyddo, rhaid i'r penodeion hynny gael eu diswyddo. Os nad yw awdurdod lleol yn enwebu unrhyw un i'w ddiswyddo cyn diwedd y cyfnod hwnnw o ddu fis, bydd gan landlord cymdeithasol cofrestredig ddu fis i ddiswyddo penodeion o'r fath er mwyn cydymffurfio â'r trothwy o 24%. Os na cheir enwebiad gan awdurdod lleol, dylid dethol y penodeion sydd i'w diswyddo drwy bleidlais fwyafrifol o blith aelodau'r bwrdd nad ydynt yn benodeion awdurdod lleol (gweler adran 7D).
121. O dan adran 7E, os yw cyfansoddiad neu reolau landlord cymdeithasol cofrestredig yn datgan bod rhaid i o leiaf un penodai llywodraeth leol neu ragor fod yn bresennol er mwyn i gyfarfod ffurio cworwm, nid yw'r ddarpariaeth honno yn cael unrhyw effaith. Gweler hefyd adran 71 mewn cysylltiad â darpariaethau mewn cytundebau nad ydynt i gael unrhyw effaith.
122. O dan adran 7F, os ceir darpariaeth yng nghyfansoddiad neu reolau landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol cael dros 75% o'r pleidleisiau a fwriwyd i basio penderfyniad, bydd y ddarpariaeth honno'n cael effaith fel pe bai'n ei gwneud yn ofynnol cael 75% yn unig o'r pleidleisiau a fwriwyd i basio'r penderfyniad. Gweler hefyd adran 7I mewn cysylltiad â darpariaethau mewn cytundebau nad ydynt i gael unrhyw effaith.
123. O dan adran 7G, os ceir darpariaeth yng nghyfansoddiad neu reolau landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad yr awdurdod

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

lleol neu benodai'r awdurdod lleol cyn y gellir newid rheolau neu gyfansoddiad y landlord cymdeithasol cofrestredig, neu ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer feto i awdurdod lleol neu benodai awdurdod lleol, nid yw'r ddarpariaeth honno yn cael unrhyw effaith. Gweler hefyd adran 7I mewn cysylltiad â darpariaethau mewn cytundebau nad ydynt i gael unrhyw effaith.

124. O dan adran 7H, os ceir darpariaeth yn rheolau neu gyfansoddiad landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n rhoi'r hawl i awdurdod lleol bleidleisio ar benderfyniadau'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn rhinwedd aelodaeth yr awdurdod lleol o'r landlord cymdeithasol cofrestredig, nid yw'r ddarpariaeth honno yn cael unrhyw effaith. Mae hyn yn cael gwared ar hawliau pleidleisio awdurdodau lleol fel aelodau o landlord cymdeithasol cofrestredig. Gweler hefyd adran 7I mewn cysylltiad â darpariaethau mewn cytundebau nad ydynt i gael unrhyw effaith.
125. O dan adran 7I, ni fydd darpariaeth mewn cytundeb rhwng landlord cymdeithasol cofrestredig a pherson arall a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys yn rheolau neu gyfansoddiad landlord cymdeithasol cofrestredig, yn cael ei thrin fel pe na bai'n cael unrhyw effaith oherwydd y Bennod hon, yn cael unrhyw effaith. Bydd hyn yn cwmpasu, er enghraifft, unrhyw gytundebau contractiol yr ymrwymwyd iddynt rhwng awdurdod lleol a landlord cymdeithasol cofrestredig o ganlyniad i drosglwyddo stoc.
126. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, drwy orchymyn, nad yw unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau ym Mhennod 1A, neu nad yw yr un ohonynt, yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n is-gyrrff a reolir yn llwyr gan awdurdod lleol.

## **Atodlen 2**

127. Mae Atodlen 2 yn nodi'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol y bydd angen eu gwneud i ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r darpariaethau eraill a nodir yn y Bil hwn.

*Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28)*

128. Ceir gwared ar y cyfeiriadau at y gofyniad i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru i waredu eiddo o Atodlen 10 i Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (p. 28), gan y cafwyd gwared ar y gofyniad hwn.

*Deddf Tai 1996 (p. 52)*

129. Mae adrannau 8(3), 9, 10, 11(1), 12A(1) a 13(1) o Ddeddf 1996 wedi eu diwygio er mwyn cael gwared ar gyfeiriadau at y gofyniad i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, gan y cafwyd gwared ar y gofyniad hwn a'i ddisodli gan ddyletswydd i hysbysu Gweinidogion Cymru.
130. Mae adran 16 o Ddeddf 1996 wedi ei diwygio er mwyn adlewyrchu'r ffaith na fydd y gronfa enillion o wareidiadau yn bodoli mwyach.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ar 16 Hydref 2017.*

131. Mae adran 36 o Ddeddf 1996 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn rheoli llety tai yn Lloegr. Ceir gwared ar is-adran (7) er mwyn cael gwared ar gyfeiriadau at y cysyniad o "misconduct and mismanagement", sydd wedi ei dynnu o'r Bil.
132. Gwneir diwygiadau i adran 42 er mwyn adlewyrchu'r ffaith y cafwyd gwared ar adran 10 o Ddeddf 1996.
133. Mae adran 52 wedi ei diwygio er mwyn cynnwys cyfeiriad at y pŵer newydd i wneud gorchymyn ym Mhennod 1A o Ddeddf 1996.
134. Mae adran 63 o Ddeddf 1996 wedi ei diwygio er mwyn ychwanegu diffiniad o "noitfy", sef "notify in writing".
135. Yn Atodlen 1 i Ddeddf 1996, gwneir diwygiadau i gael gwared ar gyfeiriadau at "misconduct or mismanagement".

## **COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

136. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-legislation.html>

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	16 Hydref 2017
Cyfnod 1 - Dadl	
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	
Cyfnod 4 - cymeradwywyd gan y Cynulliad	
Cydsyniad Brenhinol	

## Atodiad 2 - Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Rheol sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(i) Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad	Datganiad yr Aelod	Tudalen 2
26.6(ii) Nodi amcanion polisi y Bil	Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tudalen 6 Paragraffau 3.1 – 3.2 Tudalen 8 Paragraff 3.14
26.6(iii) Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 2 – Asesiad effaith	Tudalennau 22 – 30 Paragraffau 8.1 – 8.39
26.6(iv) Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; (b) manylion y Bil, a (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalen 11 Paragraffau 4.1 – 4.5
26.6(v) Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalen 11 Paragraffau 4.4 – 4.5

Rheol sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(vi) Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalen 11 Paragraff 4.5
26.6(vii) Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tudalennau 39 – 60
26.6(viii) Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:  (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;  (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;  (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;  (d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi;  (e) pwy fyddai'n ysgwyddo'r costau	Rhan 2 – asesiad effaith	Tudalennau 18 – 20 Tabl A  Tudalennau 27 – 30 Paragraffau 8.22 – 8.38

Rheol sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(ix) Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol	Rhan 2 – asesiad effaith	Tudalennau 31 – 35 Paragraffau 9.1 – 9.20
26.6(x) Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fod y mae'r pŵer i gael ei arfer;</li> <li>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer;</li> <li>(c) gweithdrefn y Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tanu, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);</li> </ul>	Pennod 5 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tudalennau 13 – 16 Tabl 5.1 Tabl 5.2
26.6(xi) Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ynghylch a yw'r tâl yn briodol neu beidio	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn	Tudalen 17 Paragraff 6.2

Rheol sefydlog	Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6B  Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ynghylch Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn oherwydd mai darn o ddeddfwriaeth annibynnol yw'r Bil ac nad yw'n tarddu o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi.	
26.6C  Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad ddeddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei diwygio gan y Bil.	Atodiad 4 – Atodlen o Ddiwygiadau  Atodiad 4a – Deddf Tai 1996 Atodiad 4b – Deddf Tai 1985 Atodiad 4c – Deddf Tai 1988 Atodiad 4d – Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993	Tudalennau 65 – 138  Tudalennau: 66 – 124 125 – 126 127 – 134 135 – 138

## **Atodiad 4 – Atodlen o Ddiwygiadau**

**Atodiad 4a – Deddf Tai 1996**

**Atodiad 4b – Deddf Tai 1985**

**Atodiad 4c – Deddf Tai 1988**

**Atodiad 4d – Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a  
Datblygu Trefol 1993**

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Atodiad 4a

### Deddf Tai 1996

#### Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN FIL RHEOLEIDDIO LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai'r darpariaethau yn Neddf Tai 1996 fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 9 Awst 2017 yn edrych fel y'u diwygid gan Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) (pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynwyd ar 16 Hydref 2017).

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgo yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

#### Rhybudd

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

<b>Pennod 1 o Ddeddf Tai 1996</b>	<b>Adran y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd i'w diwygio</b>
<b><u>CHAPTER 1A</u></b>  <b><u>BOARD MEMBERSHIP AND VOTING RIGHTS</u></b>  <u>General</u>  <b><u>7A Meaning of key terms used in this Chapter</u></b> <b><u>(1) References in this Chapter to the board of a registered social landlord</u></b>	<b>Atodlen 1</b>
	<b>Atodlen 1</b>

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

are—

- (a) in the case of a registered social landlord that is a company (including a company that is a registered charity), references to the company's board of directors;
- (b) in the case of a registered social landlord that is a registered charity (but is not a company), references to the charity's board of trustees;
- (c) in the case of a registered social landlord that is a registered society, references to the society's committee.

(2) References in this Chapter to board members, in relation to a registered social landlord, are to members of the registered social landlord's board.

(3) References in this Chapter to local authority appointees, in relation to the board of a registered social landlord, are to persons appointed to the board, or nominated for appointment to the board, by a local authority.

*Limit on local authority appointees to board*

**7B Limit on local authority appointments to board**

Atodlen 1

(1) No appointment within subsection (2) may be made to the board of a registered social landlord on or after the day on which this section comes into force.

(2) An appointment is within this subsection if its effect, but for this section, would be that more than 24 per cent of the board members of the registered social landlord would be local authority appointees.

(3) To the extent that any provision in the constitution or rules of a registered social landlord would, but for this subsection, conflict with subsection (1) or (2), that provision is to be treated as having no effect.

**7C Removal of local authority appointees to comply with 24 per cent limit**

Atodlen 1

(1) This section applies in respect of a registered social landlord if, on the commencement date, more than 24 per cent of the board members of the registered social landlord are local authority appointees.

(2) The registered social landlord must remove local

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

authority appointees from the board to the extent it is necessary to do so to comply with the 24 per cent limit.

(3) The registered social landlord must comply with the duty in subsection (2) before the expiry of the 4 month period, but the landlord may not remove an appointee until after the 2 month period expires.

(4) A local authority may, before the expiry of the 2 month period, give notice to the registered social landlord specifying local authority appointees appointed or nominated by that authority who are to be removed from the board in order to comply with the 24 per cent limit.

(5) Where notice has been given in accordance with subsection (4) the registered social landlord, in complying with subsection (2), must remove the specified local authority appointees from the board.

(6) Where notice has not been given in accordance with subsection (4) the registered social landlord, in complying with subsection (2), must select the local authority appointees who are to be removed from the board.

(7) In this section—

“commencement date” means the day on which this section comes into force;

“2 month period” means the period of 2 months beginning with the commencement date;

“4 month period” means the period of 4 months beginning with the commencement date;

references to complying with the 24 per cent limit, in relation to the board of a registered social landlord, are to ensuring that no more than 24 per cent of the members of the board of the registered social landlord are local authority appointees.

#### **7D Procedure for selection by registered social landlord of local authority appointees for removal**

(1) The selection under section 7C(6) of a local authority appointee for removal from the board of a social landlord is to be effected by a majority vote of the votes cast by board members who are not local authority appointees.

(2) To the extent that any provision in the constitution or rules of the landlord would, but for this subsection,

**Atodlen 1**

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

conflict with subsection (1), that provision is to be treated as having no effect for the purposes of section 7C.

*Quorum and voting rights of board members*

**7E Board quorum: no requirement for local authority appointee**

(1) To the extent that any provision of the constitution or rules of a registered social landlord is within subsection (2), it is to be treated as having no effect.

(2) Provision is within this subsection if, but for this section, it would require the presence of one or more local authority appointees in order for a meeting of the board of the registered social landlord to be quorate.

**Atodlen 1**

**7F Board resolutions: 75 per cent threshold**

(1) To the extent that any provision in the constitution or rules of a registered social landlord is within subsection (2), subsection (3) applies in respect of that provision.

(2) Provision is within this section if, but for this section, it would permit a resolution of the board of the registered social landlord to be passed only if more than 75 per cent of the votes cast by the board are in favour of the resolution.

**Atodlen 1**

(3) The provision is to be treated as requiring only 75 per cent of the votes cast by the board to be in favour of the resolution.

*Consent to constitutional change*

**7G Constitutional changes: no requirement for local authority consent and no power of veto**

(1) To the extent that any provision of the constitution or rules of a registered social landlord is within subsection (2), it is to be treated as having no effect.

(2) Provision is within this subsection if, but for this section, it would—

(a) require the consent of a local authority, or of a local authority appointee to a change to the constitution or rules of the registered social landlord, or

(b) confer on a local authority, or a local authority appointee, power to veto a change within paragraph (a).

**Atodlen 1**

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>Voting rights of members of registered social landlord</u></p> <p><b>7H Voting rights of local authorities</b></p> <p>(1) This section applies if a local authority is a member of a registered social landlord.</p> <p>(2) To the extent that any provision in the constitution or rules of the registered social landlord would confer on the local authority the right, as a member of the registered social landlord, to vote on resolutions of the registered social landlord, that provision is to be treated as having no effect.</p> <p><b>7I Provision in agreements that is to be treated as having no effect</b></p> <p>To the extent that any provision in an agreement between a registered social landlord and another person would, if it were included in the constitution or rules of the registered social landlord, be treated as having no effect by virtue of this Chapter, that provision of the agreement is to be treated as having no effect.</p> <p><u>Wholly controlled subsidiaries: power to disapply this Chapter</u></p> <p><b>7J Power to disapply provisions of this Chapter</b></p> <p>(1) The Welsh Ministers may by order provide that provisions of this Chapter specified in the order are not to apply to registered social landlords that are wholly controlled local authority subsidiaries.</p>	<p><b>Atodlen 1</b></p>
	<p><b>Atodlen 1</b></p>
	<p><b>Atodlen 1</b></p>

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(a) a local authority has power to appoint or remove all or a majority of the board of directors;</p> <p>(b) a local authority holds more than half in nominal value of the company's equity share capital;</p> <p>(c) the company is a subsidiary, within the meaning of the Companies Act 2006 or Part 7 of the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014, of a company or a registered society that is a subsidiary of a local authority by virtue of meeting the condition in paragraph (a) or (b) or in subsection (5)(a).</p>	
<p>(5) The conditions are—</p> <p>(a) a local authority has power to appoint or remove all or a majority of the members of the committee of management of the society;</p> <p>(b) the society is a subsidiary, within the meaning of the Companies Act 2006 or Part 7 of the Co-operative and Community Benefit Societies Act 2014, of a company or a registered society that is a subsidiary of a local authority by virtue of meeting the condition in paragraph (a) or in subsection (4)(a) or (b).</p>	
<p>(6) For the purposes of subsection 3(b), a company or registered society is a subsidiary of a local authority if any one or more of the conditions in subsection (4) (in the case of a company) or subsection (5) (in the case of a registered society) is met.</p>	
<p>(7) The Welsh Ministers may by order make provision for a registered social landlord of a description specified in the order to be treated as being a wholly controlled local authority subsidiary for the purposes of this section and any order made under it.</p>	
<p>(8) An order under this section is to be made by statutory instrument subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.</p>	

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<b>Adran 8 o Ddeddf Tai 1996</b>	<b>Adran y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd i'w diwygio</b>
<p><b>8 Power of registered social landlord to dispose of land</b></p> <p>(1) A registered social landlord has power by virtue of this section and not otherwise to dispose, in such manner as it thinks fit, of land held by it.</p> <p>(2) Section 39 of the Settled Land Act 1925 (disposal of land by trustees) does not apply to the disposal of land by a registered social landlord; and accordingly the disposal need not be for the best consideration in money that can reasonably be obtained.</p> <p>Nothing in this subsection shall be taken to authorise any action on the part of a charity which would conflict with the trusts of the charity.</p> <p>(3) This section has effect subject to section 9 (<del>control by Welsh Ministers of land transactions</del>) (<u>notification to Welsh Ministers of disposal of land</u>).</p>	<b>Atodlen 2 (3)</b>

<b>Adran 9 o Ddeddf Tai 1996</b>	<b>Adran y Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd i'w diwygio</b>
<p><b><u>Control by Welsh Ministers of Requirements relating to land transactions</u></b></p> <p><b>9 Consent required for disposal of land by registered social landlord Notification to Welsh Ministers of disposal of land</b></p> <p>1 The consent of the Welsh Ministers... is required for any disposal of land by a registered social landlord under section 8.</p>	<b>Atodlen 2(4)</b>
	<b>Adran 14(1)</b>

Sylwer: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

